

# Adolygiad Gwella Ansawdd

Prifysgol Abertawe

Yr Adroddiad Technegol

Tachwedd 2020



## Cynnwys

<b>Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd .....</b>	<b>1</b>
<b>Yr adolygiad yma .....</b>	<b>1</b>
<b>Yr adroddiad yma.....</b>	<b>1</b>
<b>Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol Abertawe .....</b>	<b>2</b>
1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad .....	3
2 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.....	8
3 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu.....	16
4 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd .....	20
5 Darpariaeth gydweithredol .....	27

## Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr [Adolygiad Gwella Ansawdd](#) ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.<sup>1</sup> Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch \(QAA\)](#).<sup>2</sup>

## Yr adolygiad yma

Dyma Adroddiad Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Abertawe. Cafwyd yr adolygiad mewn dau gam, fel a ganlyn: yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm ar 25 Chwefror 2020 a'r Ymweliad Adolygu rhwng 9 a 13 Tachwedd 2020. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o bedwar adolygwr:

- Dr Nicola Jackson
- Mr David Lloyd
- Yr Athro Jethro Newton
- Ms Nina Di Cara (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Cyn yr ymweliadau adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (y Dadansoddiad Hunanwerthuso), Adroddiad Newidiadau, a Phecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw, sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academaidd ac ansawdd.

## Yr adroddiad yma

Yn yr adroddiad hwn, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Gallwch weld y beirniadaethau ar dudalen 2, ac mae canfyddiadau manwl yr adolygiad yn dilyn y rheiny mewn paragraffau wedi eu rhifo.

Mae Adroddiad Technegol yn nodi barn tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd o dan bob un o benawdau'r adroddiad. Mae Adroddiad Canlyniadau byrrach yn nodi prif ganfyddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd i gynulleidfa ehangach. Mae'r [Adroddiad Canlyniadau](#) ar gyfer yr adolygiad hwn ar gael ar wefan QAA.<sup>3</sup> Mae Adroddiadau Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd wedi eu bwriadu'n bennaf i'r darparwyr dan sylw, ac i ddarparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws ystod o ddarparwyr.

---

<sup>1</sup> Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd:

[www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd](http://www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd).

<sup>2</sup> Rhagor o wybodaeth am QAA: [www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni](http://www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni).

<sup>3</sup> Yr Adroddiad Canlyniadau: [www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Abertawe](http://www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Abertawe)

## Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol Abertawe

Mae Prifysgol Abertawe'n **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.

Mae Prifysgol Abertawe'n **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

# 1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

## 1.1 Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol

1 Mae Prifysgol Abertawe yn ei chanfed blwyddyn, yn dilyn ei sefydlu drwy Siarter Frenhinol yn 1920 yn sefydliad cyfansoddol o Brifysgol Cymru. Mabwysiadodd y teitl 'Prifysgol Abertawe' yn ffurfiol yn 2007.

2 Mae adrannau academiaidd y Brifysgol wedi eu trefnu'n saith coleg ar hyn o bryd: Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Y Coleg Busnes ac Economeg (a elwir Yr Ysgol Reolaeth), Y Coleg Peirianeg, Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, Coleg y Gyfraith a Throsedddeg (a elwir yn Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton), Y Coleg Meddygaeth (a elwir yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe), a'r Coleg Gwyddoniaeth.

3 Dyma weledigaeth y Brifysgol: "Gyda'n gilydd, byddwn yn trawsnewid bywydau a rhagolygon, drwy ddarparu amgylchedd academiaidd rhagorol sy'n cydbwysu rhagoriaeth o ran addysgu ac ymchwil o safon fyd-eang ag ysgogi effaith ar sail cydweithio rhanbarthol a byd-eang effeithiol."

4 Yn 2018, dyfarnwyd Gwobr Aur am Ragoriaeth Addysgu i'r Brifysgol; cafodd ei rhestru'n 30ain o 120 o sefydliadau yn 'Good University Guide' y *Times* a'r *Sunday Times*; a dangosodd canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 fod y Brifysgol wedi symud o safle 52 yn 2008 i 26 yn 2014. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi ennill Gwobr Arian Athena SWAN.

5 Mae cenhadaeth Prifysgol Abertawe'n nodi y bydd yn:

- "Darparu profiad neilltuol i'w myfyrwyr, ynghyd ag addysgu sy'n cael ei arwain gan ymchwil a'i ysgogi gan ymarfer, sy'n cynhyrchu graddedigion byd-eang wedi eu haddysgu a'u hyfforddi i gyflawni canlyniadau nodedig yn eu bywydau personol a phroffesiynol."
- Darparu amgylchedd o ragoriaeth ymchwil, gydag ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, yn seiliedig ar gydweithredu byd-eang ac a gydnabyddir yn rhyngwladol.
- Defnyddio ein cryfderau addysgu ac ymchwil, ein cydweithrediad â diwydiant a'n cyrhaeddiad byd-eang i ysgogi twf economaidd, i feithrin ffyniant, i gyfoethogi bywyd cymunedol a diwylliannol Cymru ac i gyfrannu at iechyd, hamdden a lles ei dinasyddion."

6 Mae Cynllun Strategol y Brifysgol, a lanswyd yn 2004, yn ei bedwerydd cam bellach a bydd yn dod i ben yn 2020. Cafodd ei ddatblygu ar sail gwaith ymgysylltu â'r staff a'r myfyrwyr. Yn rhan o'i phrosesau cynllunio strategol, mae'r Brifysgol wedi datblygu '20 Ymrwymiad y Canmlwyddiant' Prifysgol Abertawe a bennwyd o fewn y tair thema strategol a ganlyn:

- Profiad y myfyrwyr - darparu profiad ysbrydoledig i fyfyrwyr
- Ymchwil - cyflawni ymchwil o safon fyd-eang
- Arloesi ac ymgysylltu - addysgu ac ymchwil o safon fyd-eang, sy'n ysgogi twf economaidd ac effaith ar gymdeithas.

Mae'r rhain wedi eu rhestru fel 'Galluogwyr Strategol' - sef ffactorau llwyddiant allweddol sy'n ysgogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth y Brifysgol.

7 Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am benderfynu cyfeiriad strategol y Brifysgol a'i oruchwylio; ac mae Bwrdd Rheoli'r Brifysgol, gyda chefnogaeth nifer o bwyllgorau a gweithgorau, yn gyfrifol am weithredu polisiau. Mae Senedd y Brifysgol yn gyfrifol am ddyfarnu graddau a chymwysterau academiaidd eraill, ond dirprwyir ei chyfrifoldebau am faterion gweithredol i'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd a'i is-bwyllgorau.

8 Mae'r Cynllun Strategol newydd wrthi'n cael ei ddatblygu gyda chymorth gwaith ymgynghori eang â chymuned y Brifysgol. Mae cynlluniau'n cael eu hystyried i gyfuno'r colegau presennol er mwyn creu strwythur newydd sydd wedi ei seilio ar gyfadrannau a chanddynt Dimau Rheoli Cyfadrannau. Bydd y strategaeth hon yn cynnwys y gwaith parhaus o ddatblygu Strategaeth Ryngwladoli newydd a gweithredu Strategaeth Dysgu ac Addysgu ddiwygiedig, ynghyd â chyflwyno'r Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr.

9 Ar 23 Mawrth 2020, roedd yn rhaid i'r Brifysgol gau mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws. I wneud hynny, roedd yn rhaid i'r Brifysgol weithredu'n gyflym i addasu'r rheoliadau a'r polisiau er mwyn:

- darparu dysgu ac addysgu ar-lein
- cefnogi'r myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr, oedd yn awr yn gweithio o bell, a chwblhau'r gweithdrefnau asesu i fyfyrwyr oedd yn eu blwyddyn derfynol a myfyrwyr oedd yn parhau i astudio.

10 Tîm Rheoli Digwyddiadau'r Brifysgol oedd yn cyfarwyddo'r gwaith sylweddol hwn i gychwyn, a hynny dan arweiniad yr Is-Ganghellor. Yn dilyn hynny, gwnaethpwyd y gwaith gan y grŵp Prosiect Cynllunio Adferiad rhag COVID-19, dan arweiniad y Cofrestrydd/y Prif Swyddog Gweithredu, wrth i'r gwaith ddechrau edrych i'r dyfodol at ail agor y campws ac ar yr un pryd sicrhau diogelwch a lles y staff a'r myfyrwyr.

11 Cafodd yr egwyddorion cyfredol o bartneriaeth â myfyrwyr eu hehangu er mwyn cyfathrebu ac ymgysylltu â'r corff myfyrwyr; mae Undeb y Myfyrwyr yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac mae'n cefnogi'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd. Mae'r corff llywodraethu wedi chwarae ei ran yn gyflawn yn y broses o oruchwylio a chymeradwyo'n ffurfiol y newidiadau a wnaed i'r rheoliadau a pholisiau.

## **1.2 Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thuueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwyilir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau**

12 Ar hyn o bryd, mae gan y Brifysgol fwy na 20,000 o fyfyrwyr llawn amser a rhan amser. Rhwng 2013-14 a 2017-18, cynyddodd nifer y myfyrwyr israddedig o 10,660 i 15,270, yn rhan o Gynllun Strategol y Brifysgol i gynyddu nifer ei myfyrwyr. Law yn law â'r ehangiad hwn cafwyd buddsoddiad yn y seilwaith, yn arbennig yn natblygiad Campws y Bae, a agorwyd yn 2015, i ymuno â Champws Singleton oedd yno'n barod, a chafodd y campws hwnnw waith adnewyddu ar ei adeiladau hefyd.

13 Mae oddeutu 53% o'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn ddynion a 47% yn ferched. Mae nifer y myfyrwyr o gefndir du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yn cynyddu, a gwelwyd cynnydd o 62% yn nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf o'r gefndir hwn rhwng 2013 a 2017.

14 Y strategaeth gyfredol mewn perthynas â nifer y myfyrwyr yw targedu rhaglenni newydd ym meysydd Fferylliaeth, Athroniaeth, Chwaraeon a'r Gwyddorau Cymdeithasol, ynghyd â dymuniad i ddenu rhagor o fyfyrwyr rhyngwladol.

15 Mae'r Brifysgol yn cyflogi oddeutu 3,500 o weithwyr academiaidd a gweithwyr gwasanaethau proffesiynol.

16 Mae'r cyfraddau cadwraeth wedi parhau'n gyson ar oddeutu 95% dros y tair blynedd diwethaf. Mae nifer y graddau da a ddyfernir wedi cynyddu o 78% yn 2017-18 i 79.4% yn 2018-19. Yn ôl y Brifysgol, gwell safon addysgu a chymorth academiaidd a lles yw rhai o'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yn y bwlch cyflawniad rhwng myfyrwyr o ardaloedd ehangu mynediad a'r corff myfyrwyr cyfan wrth ennill eu graddau. Erbyn hyn, y bwlch cyflawniad yw 1.2%, o'i gymharu â 11% yn 2013-14.

### **1.3 Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol**

17 Mae Cynlluniau Mynediad a Ffioedd y Brifysgol, a gyflwynwyd i CCAUC, yn disgrifio dull y Brifysgol o ddarparu amgylchedd astudio cynhwysol, sy'n cefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a'r myfyrwyr i gyd, i gymryd rhan ac i lwyddo mewn addysg uwch. Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn buddsoddi mewn ystod o flaenoriaethau, sy'n cynnwys y canlynol: Uned Allgymorth y sefydliad, y Bartneriaeth Ymgynraedd yn Ehangach, y cymorth ariannol a gynigir ar ffurf bwrsariaethau, ffocws ar iechyd a lles meddwl, gweithrediad strategaeth cenhadaeth ddinesig a'r strategaeth ymchwil ac arloesi.

18 Mae'r Brifysgol wedi cynyddu nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n astudio yn y Brifysgol, yn rhan o'i hymrwymiad i hyrwyddo a hybu'r iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd mae ganddi 452 o fyfyrwyr sy'n astudio rhan o'u rhaglenni drwy gyfrwng y Gymraeg.

19 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y rôl sydd ganddi i ddarparu ar gyfer anghenion cyflogwyr drwy, er enghraifft, gyflwyno rhaglen Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) mewn Addysg Uwchradd sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig, a ddarperir gan Bartneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe, a thrwy ddarparu prentisiaethau gradd.

20 Mae Strategaeth Iechyd a Lles wrthi'n cael ei datblygu i weithredu'r polisi cenedlaethol a hyrwyddwyd drwy *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*.

### **1.4 Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad**

21 Siapiwyd y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad gan Gynllun Rheoli Prosiect ar gyfer yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn 2020, lle rhoddir swyddogaethau allweddol i'r Hwylusydd Sefydliadol a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, sy'n gweithredu mewn Tîm Rheoli Prosiect ar gyfer yr Adolygiad Gwella Ansawdd. Roedd cynllun y prosiect yn cynnwys cymuned gyfan y Brifysgol, gan gynnwys Undeb y Myfyrwyr a'r corff myfyrwyr.

22 Gwnaethpwyd y gwaith o ddatblygu'r Dadansoddiad Hunanwerthuso fel ymdrech ar y cyd gyda'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth, a chafodd y ddogfen ei hysgrifennu gyda chyfraniadau gan amrywiaeth eang o bobl, yn cynnwys myfyrwyr, staff academiaidd a staff gwasanaethau proffesiynol. Yn ogystal, sefydlwyd 10 o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i fapio polisiâu, cod ymarfer, rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn erbyn y themâu yn fersiwn ddiwygiedig Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

23 Sefydlwyd strwythur llywodraethu ar gyfer yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn 2020 i sicrhau bod adroddiadau cynnydd rheolaidd ar gael, a bod tegwch y prosesau gwneud penderfyniadau'n weladwy i holl aelodau cymuned y Brifysgol. Ym mis Rhagfyr 2019, cwblhaodd Cyngor a Senedd y Brifysgol gam olaf y broses o gymeradwyo'r Dadansoddiad Hunanwerthuso a'r Adroddiad Newidiadau.

24 Ar 23 Mawrth 2020, roedd yn rhaid i'r Brifysgol gau yn rhan o ymateb y Llywodraeth i'r pandemig COVID-19. Gohiriwyd yr adolygiad felly tan dymor yr hydref a chafodd ei weithredu ar-lein. Mae'r Brifysgol wedi paratoi adroddiad diweddar sydd wedi ei ategu gan sail tystiolaeth er mwyn cefnogi'r tîm adolygu i ddeall y camau gweithredu a gafodd eu cymryd gan y Brifysgol yn y cyfamser. Galluogodd y deunyddiau hyn i'r tîm adolygu archwilio agweddau o'r adroddiad hwn yn ystod y cyfarfodydd adolygu. Er bod hyn yn rhan allweddol o gyd-destun yr adolygiad, bu tîm adolygu'r Adolygiad Gwella Ansawdd hwn yn ystyried dull y Brifysgol o sicrhau ansawdd a sicrhau gwelliant ers ei adolygiad blaenorol yn 2014.

## **1.5 Crynodeb byr o natur a rhesymeg y meysydd penodol y dylai'r adolygiad a'r hunanwerthusiad ganolbwyntio arnynt**

25 Gofynnodd y Brifysgol i'r tîm adolygu archwilio pedwar maes i ganolbwyntio arnynt: ymgysylltiad a phartneriaeth â myfyrwyr; cyflogadwyedd; rheoli portffolio; a symudedd myfyrwyr a rhyngwladoli. Pennwyd y pedwar maes yma'n feysydd o gryfder yn y Brifysgol a chânt eu trafod mewn adrannau dilynol o'r adroddiad hwn.

26 Yn yr adolygiad diwethaf gan QAA, pennwyd y partneriaethau â myfyrwyr yn nodwedd o arfer da, ac yn yr un modd, cydnabuwyd cryfder y partneriaethau â'r myfyrwyr yn y Datganiad o Ganfyddiadau Gwobr Aur sy'n rhan o'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu. Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn ystyried bod y gwelliannau sy'n parhau i ddigwydd yn y maes hwn yn dystiolaeth o ymrwymiad sylweddol i bartneriaethau ac ymgysylltiad sy'n cryfhau'n barhaus.

27 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod yr ystod o fentrau cyflogadwyedd wedi peri cynnydd yn lefelau cyflogadwyedd y graddedigion ac wedi cyfrannu at safle'r Brifysgol fel un o'r pump uchaf am ragolygon gyrfadol ei graddedigion (yn y Tabl Cynghrair Prifysgolion a gyhoeddwyd gan y Guardian yn 2020). Yn ogystal, cydnabuwyd bod cyflogadwyedd yn nodwedd o arfer da yn yr adolygiad diwethaf gan QAA ac yn y Datganiad o Ganfyddiadau Gwobr Aur sy'n rhan o'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu.

28 Mae'r Brifysgol yn ceisio sicrhau mai dim ond rhaglenni cynaliadwy o'r safon uchaf sy'n cael eu cymeradwyo. Mae ei dull o gyflawni hyn yn cynnwys proses ddau gam o gynllunio rhaglenni, ar sail y galw gan fyfyrwyr a chyflogwyr, ynghyd â dull tebyg o resymoli ei phortffolio o raglenni.

29 Yn olaf, mae'n uchelgais gan y Brifysgol i gynyddu cyfleoedd i'r myfyrwyr i gyd astudio neu weithio dramor. Mae'r ffocws hwn yn cefnogi'r ymdrech i wella cyflogadwyedd graddedigion.

## **1.6 Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol**

30 Yn yr adolygiad blaenorol gan QAA yn 2014, tynnwyd sylw at wyth maes o arfer da, dau argymhelliad a dau gadarnhad. Lluniwyd cynllun gweithredu mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn a chwblhawyd yr holl gamau gweithredu erbyn 2015. Tynnwyd sylw at nodweddion o arfer da yn y meysydd canlynol: y cyfraniad a wneir gan y Llwybr Gyrfa Academiaidd at wella profiad dysgu'r myfyrwyr; gwaith Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe i wella arferion dysgu ac addysgu, gan gynnwys ei dull o ddatblygu staff; y gefnogaeth y mae staff llyfrgell sy'n arbenigwyr pwnc yn ei rhoi i'r myfyrwyr, ynghyd â'u rôl mewn cysylltu â'r colegau; y defnydd a wneir o ystod eang o adborth gan fyfyrwyr; yr agwedd gydlynol tuag at ddatblygu cyflogadwyedd myfyrwyr; y cyfraniadau a wneir gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe, Academi Cynwysoldeb a Chefnogi Dysgwyr Abertawe, Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe ac Academi Hywel Teifi at brosiectau a luniwyd i wella profiadau dysgu ehangach y myfyrwyr; a'r ystod o fentrau symudedd a rhyngwladoli sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol a gyrfadol y myfyrwyr.

31 Nodwyd yn yr argymhellion y dylai'r Brifysgol egluro'r modelau safoni sydd ar waith ar lefel y modiwl a'r rhaglen; ac y dylai weithredu system i'w galluogi i oruchwylio cyflawniad y myfyrwyr ar ei rhaglenni ymchwil ôl-raddedig.

32 Roedd y cadarnhadau'n ymwneud â'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd i sicrhau bod canlyniadau dysgu'n cael eu mynegi mewn ffordd sy'n gyson â disgwyliadau'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch* (FHEQ); ac i fonitro a gwella cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth ddiffiniol am raglenni.



33 Lluniwyd cynllun gweithredu mewn ymateb i'r Adolygiad Sefydliadol a weithredwyd gan QAA yn 2014. Cafodd yr holl gamau gweithredu a bennwyd mewn ymateb i'r ddau argymhelliad a'r ddau gadarnhad eu cwblhau erbyn 2015.

### **1.7 Manylion cyfrifoldebau'r darparwr am y ddarpariaeth addysg uwch y mae'n ei darparu ar ran y corff/cyrff dyfarnu graddau y mae'n gweithio mewn partneriaeth ag o/ â nhw**

34 Ar hyn o bryd, mae darpariaeth gydweithredol y Brifysgol yn weddol fach ac mae'n cynnwys cydberthnasau â phartneriaid rhyngwladol sy'n darparu cyfleoedd astudio mewn blynyddoedd rhyngosodol a chyfleoedd i astudio dramor, a gyda phartneriaethau yn y DU sy'n cynnwys cyrsiau o dan drefniadau dilysu neu etholfreinio, graddau sylfaen a phrentisiaethau gradd. Un o uchelgeisiau'r Brifysgol yw datblygu ei darpariaeth ymhellach ac mae'n bwriadu gweithredu Strategaeth Ryngwladoli newydd a fydd yn ysgogi gweithgareddau cydweithredol yn y dyfodol.

## 2 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

### 2.1 Y dull strategol o wella profiad y myfyrwyr

35 Mae prif gynllun strategol y Brifysgol yn cyflwyno profiad y myfyrwyr fel un o'i dair thema allweddol, sy'n cynnwys chwe 'Ymrwymiad y Canmlwyddiant' a luniwyd i wella profiad y myfyrwyr. Gweithredir yr ymrwymadau hyn drwy'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu (2019-24), a'r Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr parhaus, a ddatblygwyd ar y cyd gydag Undeb y Myfyrwyr ac a lansiwyd yn 2019. Mae'r ffocws strategol sydd gan y Brifysgol ar brofiad y myfyrwyr wedi ei adlewyrchu hefyd yn ei phenderfyniad i gynnwys ymgysylltiad a phartneriaeth â myfyrwyr yn faes i ganolbwyntio arno yn yr adolygiad hwn. Bydd ei phrif gynllun strategol yn dod i ben yn 2020, ac mae hyn wedi darparu'r cyfle i wneud adolygiad o ddull y Brifysgol wrth symud i'r cyfnod nesaf - adolygiad sydd wedi cynnwys ymgynghoriad â mwy na 500 o fyfyrwyr a chynfyfyrwyr er mwyn datblygu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

36 Y prif gorff sydd â'r cyfrifoldeb am faterion strategol mewn perthynas â gwella profiad y myfyrwyr, a'u dysgu, eu haddysgu a'u hasesu yw'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd (Pwyllgor DAA). Mae gan y Pwyllgor DAA bum aelod sy'n fyfyrwyr. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr yn is-bwyllgor i'r Cyngor, a'i nod yw gwella profiad y myfyrwyr drwy gynnal partneriaeth gydag Undeb y Myfyrwyr. Mae'r pwyllgor hwn yn goruchwylio'r Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr ac mae'n cynnwys y swyddogion sabothol llawn amser, dau aelod o Gyngor y Brifysgol, Arweinwyr Ymgysylltu â Myfyrwyr ar lefel y colegau, a staff allweddol y gwasanaethau proffesiynol.

37 Mae dull strategol y Brifysgol o wella profiad y myfyrwyr wedi arwain at nifer o ddatblygiadau yn ei strwythur sy'n golygu bod modd cymryd agwedd fwy cyd-drefnus at wella profiad y myfyrwyr. Mae'r datblygiadau hyn wedi cynnwys penodi Deoniaid mewn meysydd megis ymchwil ôl-raddedig, asesiadau ac adborth, cyflwyno Arweinwyr Ymgysylltu â Myfyrwyr ar lefel y colegau, datblygu Gwasanaethau Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr neilltuedig a chyflwyno'r plattform un-pwynt-mynediad ar-lein 'MyUniHub' i'w gwneud hi'n haws i fyfyrwyr gyrchu gwasanaethau anacademaidd. Maent hefyd wedi cynnwys buddsoddiadau mewn technolegau sy'n hwyluso cyfathrebiad y Brifysgol gyda'i myfyrwyr, megis 'EvaMetrics' ar gyfer rhoi adborth am fodiwlau, a'r plattform 'Unitu' sydd hefyd yn galluogi i fyfyrwyr roi adborth.

38 Yn ei holl gyfarfodydd gyda'r staff a'r myfyrwyr, clywodd y tîm adolygu am bwysigrwydd y bartneriaeth rhwng y Brifysgol a'r corff myfyrwyr, a gwelwyd bod y ffocws strategol ar weithio mewn partneriaeth wedi ymwreiddio i'r rhyngweithio rhwng y Brifysgol a'i myfyrwyr. Felly, mae'r tîm adolygu'n **canmol** y ffocws strategol a roddir ar gyfathrebu a thrafod gyda'r myfyrwyr sy'n creu teimlad cryf o gymuned ac sy'n gyrru gwelliant ar lefel y sefydliad cyfan ym mhrofiad y myfyrwyr.

### 2.2 Y dull o weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr

39 Mae blaenoriaethau strategol y Brifysgol, sydd wedi eu nodi yn Ymrwymadau'r Canmlwyddiant, Strategaeth Dysgu ac Addysgu a Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr y Brifysgol, yn rhoi pwyslais allweddol ar "barchu a gwerthfawrogi myfyrwyr fel partneriaid". I wneud hynny, mae'r Brifysgol yn defnyddio ei phartneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr yn effeithiol er mwyn sicrhau bod partneriaethau â myfyrwyr yn greiddiol i'r prosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Brifysgol. Ar gyfer yr Adolygiad Gwella Ansawdd hwn, dewisodd y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr (ar ran y corff myfyrwyr) gyflwyno Dadansoddiad Hunanwerthuso ar y cyd.

40 Mae'r Brifysgol, mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, yn gweithredu system gynrychiolaeth y myfyrwyr, a elwir y 'Parth Addysg', sydd â 29 o gynrychiolwyr o'r colegau ac oddeutu 350 o gynrychiolwyr ar lefel y cyrsiau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith y myfyrwyr

ymchwil ôl-raddedig - a chefnogir y rhain gan Undeb y Myfyrwyr, y Gwasanaeth Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr, ac Arweinwyr Ymgysylltu â Myfyrwyr ar lefel y colegau.

Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn rhan allweddol o drefn pwyllgorau ymgynghori'r Brifysgol, ac maent yn gweithio gydag Arweinwyr Ymgysylltu â Myfyrwyr i gynnal cyfarfodydd rhwng y myfyrwyr a'r staff. Maen nhw hefyd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu ar lefel yr ysgolion i wella profiad y myfyrwyr. Yn ogystal, mae'r Brifysgol wedi creu rôl yr adolygwyr sy'n fyfyrwyr lle bydd myfyrwyr yn cydweithio gyda staff y Brifysgol fel partneriaid mewn ystod o weithgareddau sicrhau a gwella ansawdd. Derbyniwyd y cynllun hwn mewn modd cadarnhaol gan y myfyrwyr a'r staff y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw.

41 I gyrraedd y gymuned myfyrwyr ehangach, mae'r Brifysgol yn cynnal ymgyrch flynyddol, 'Arolwg Mawr Abertawe', lle mae'n hysbysu'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) a'i harolygon mewnol ei hun o brofiad ei myfyrwyr. Mae canlyniadau'r arolygon blynyddol o brofiad y myfyrwyr yn bwydo i mewn i'r cynlluniau gweithredu a grybwyllwyd eisoes, gan arwain at ledaenu neges yr ymgyrch 'Gyda'n Gilydd Gwnaethom Newid' i'r myfyrwyr. Yn ogystal, mae'r modiwlau'n cael eu gwerthuso drwy gydol y flwyddyn ar gamau canol a diwedd y modiwlau drwy system ar-lein newydd.

42 Mae'r Brifysgol hefyd yn casglu adborth drwy gydol y flwyddyn drwy gynnal digwyddiadau panel barn i'r myfyrwyr a thrwy'r platfform 'Unitu'. Mae hon yn rhaglen ar-lein lle gall y myfyrwyr i gyd gyflwyno adborth; cynrychiolwyr y myfyrwyr sy'n ei harolygu a dyrennir adborth yn gyhoeddus i unigolion sydd wedyn yn rhoi negeseuon ar-lein i gyhoeddi'r diweddaraf am y camau a gymerwyd. Mae'r system 'Unitu' wedi cynyddu amlygrwydd, atebolrwydd a phrydlondeb ymatebion y Brifysgol i bryderon myfyrwyr, a dangoswyd mor effeithlon ydyw gan allu'r Brifysgol i ymateb yn gyflym i bryderon y myfyrwyr ar ddechrau pandemig y Coronafeirws (gwelwch adrannau 3.2 a 4.7).

43 Disgrifiodd y myfyrwyr a'r staff bartneriaeth gyda'r Brifysgol sy'n caniatáu i fyfyrwyr ymgysylltu'n feirniadol ag amrywiaeth eang o benderfyniadau a wneir - o gyd-ddatblygu cynlluniau gweithredu, i'w cynhwysiad ar banelau cyfweld staff - gyda chefnogaeth system gynrychiolaeth y myfyrwyr, a'r amrywiol dulliau sydd ar gael o roi adborth. Felly, mae'r tîm adolygu'n **canmol** y ffocws cryf a roddir ar y bartneriaeth â'r myfyrwyr yn y Brifysgol sydd wedi ei ymwreiddio ar bob lefel yn y sefydliad ac sy'n galluogi i'r myfyrwyr ymgysylltu'n feirniadol â phrosesau gwneud penderfyniadau'r Brifysgol.

### **2.3 Cydnabod ac ymateb i'r amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrwyr, gan gynnwys dulliau o ehangu mynediad, anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr, ac ystyried y dull astudio, lefel yr astudio a'r lleoliad astudio**

44 Mae gan Brifysgol Abertawe ymrwymiad uniongyrchol i ateb anghenion ei phoblogaeth amrywiol o fyfyrwyr a chynyddu ei hamrywiaeth ymhellach yn ei 'Hymrwymadau'r Canmlwyddiant' a'i Strategaeth Dysgu ac Addysgu lle mae'n tynnu sylw at "alluogi unigolion o grwpiau a dangynrychiolir i fynd i mewn i addysg uwch". Gyda'i ffocws yn benodol ar amrywiaeth, mae gan y Brifysgol Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 sy'n cael ei fonitro gan Bwyllgor Cydraddoldeb y Brifysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau i ostwng y bwch cyrhaeddiad i fyfyrwyr du a lleiafrifoedd ethnig i 3%, ac mae hwn ar waith ac wedi cyflawni ei amcanion i sicrhau Gwobr Arian Athena SWAN a chydabyddiaeth gan Stonewall. Mae'r gwaith hwn yn digwydd mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr. Hefyd, mae Cynllun Mynediad a Ffioedd 2019-20 y Brifysgol yn darparu tystiolaeth o gynlluniau sy'n gredadwy ac yn gadarn i gynyddu mynediad, cyfranogaeth, cadwraeth a chanlyniadau i fyfyrwyr o amrywiaeth mawr o grwpiau.

45 Yn bennaf, Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe sy'n goruchwyllo dull y Brifysgol o gydnabod ac ymateb i'r amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrwyr. Mae'r Academi'n gwasanaethu'r Brifysgol gyfan ac mae'n rhoi adroddiadau i'r Pwyllgor DAA ac yn cydlynu ystod o weithgareddau a fwriedir i wella cadwraeth, mynediad, cynnydd a chanlyniadau myfyrwyr

difreintiedig yn fewnol, yn ogystal â gwaith allgymorth gydag ysgolion a cholegau addysg bellach yn y rhanbarth. Mae rhaglenni megis 'Camu Ymlaen i Brifysgol Abertawe' wedi cynyddu'r mynediad i brifysgol i ddisgyblion Blwyddyn 12 o ardaloedd difreintiedig yn y rhanbarth, ac ymadawyr gofal o bob rhan o Gymru. Mae mentrau eraill yn cynnwys 'pecyn cymorth' i sicrhau gwell cefnogaeth i diwtoriaid personol, a mentora rhwng myfyrwyr â'i gilydd. Prifysgol Abertawe hefyd yw'r partner arweiniol yn y rhaglen Partneriaeth Ymgynraedd yn Ehangach yn Ne-orllewin Cymru, sef partneriaeth rhwng Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a cholegau addysg bellach yn y rhanbarth. Diben y rhaglen hon yw cynyddu mynediad i addysg i fyfyrwyr o ardaloedd difreintiedig.

46 Rhoddir gwybodaeth i fyfyrwyr cyn iddynt ymuno â'r Brifysgol, ac wrth iddynt gofrestru, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu symud yn esmwyth i mewn i fywyd prifysgol. Unwaith y maent wedi cofrestru, gall y myfyrwyr geisio cymorth drwy eu Mentor Academaidd (tiwtor personol), sy'n gallu cyfeirio myfyrwyr at wasanaethau cymorth priodol yn y Brifysgol fel y bo'r gofyn, er enghraifft Cydlynedd Anabledd Academaidd y coleg neu'r Gwasanaethau Cymorth Cynhwysol i Fyfyrwyr. Gall pob myfyriwr hefyd ddefnyddio'r porth 'MyUniHub' sy'n blatfform un-pwynt-mynediad at yr holl wasanaethau anacademaidd, gan gynnwys gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr a gwasanaethau proffesiynol. Mae adborth cychwynnol gan y myfyrwyr yn awgrymu bod hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r myfyrwyr i lywio drwy'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

47 Yn benodol, mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys therapi ymddygiad gwybyddol ar-lein, sesiynau cwnsela un-i-un, ac adnoddau eraill ar sail grŵp neu hunangymorth, oll yn rhad ac am ddim, drwy'r Gwasanaeth Lles a chymorth anabledd penodol drwy'r Swyddfa Anableddau. Mae'r Brifysgol yn cynnal dosbarthiadau sy'n dysgu sgiliau byw'n annibynnol, a phecyn cymorth penodol i ymadawyr gofal, ymysg cynlluniau eraill, drwy eu menter 'Bywyd ar y Campws' Gall y myfyrwyr hefyd gael lleoliadau gwaith wedi eu teilwra'n benodol iddyn nhw drwy gynllun 'GO Wales' sy'n cefnogi myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae tystiolaeth a ddarparwyd o fetrigau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr (FfRhA) yn dangos bod y bobl hynny o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wedi cyflawni'n uwch na'r sector ar gyfartaledd mewn astudiaeth bellach a swyddi cyflogedig medrau uchel.

48 Roedd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n ystyried bod y gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn hygyrch ac yn ddefnyddiol. Roedd myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol hefyd wedi sôn am natur groesawgar a chyfeillgar cymuned y Brifysgol a oedd wedi gwneud eu trosglwyddiad i fywyd prifysgol yn haws. Disgrifiodd y staff y mentrau allgymorth ar lefel yr adrannau oedd wedi eu bwriadu'n benodol i gyrraedd grwpiau amrywiol, ac addasiadau ffisegol i gyfarpar arbenigol, megis meinciau mewn labordai. Ar y cyfan, gwelodd y tîm adolygu bod gan y Brifysgol ystod o fentrau i gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol, a chynlluniau cadarn i ymdrin â meysydd lle'r oedd hi'n hysbys bod anghydraddoldeb.

## 2.4 Profiad y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a'r myfyrwyr ymchwil

49 Yn gyffredinol, mae'r Brifysgol yn ystyried ei darpariaeth a addysgir ar y cyd, gan gwmpasu myfyrwyr israddedig a myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir o dan un dull strategol cyfunol, gyda systemau a strwythurau yn eu lle sy'n mynd i'r afael â phrofiad y myfyrwyr a addysgir. Wedi dweud hynny, roedd hi'n amlwg i'r tîm adolygu nad oedd profiadau'r myfyrwyr israddedig a'r myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir wedi eu cydasio. Mae arolwg penodol o brofiad y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir; ac mae cynrychiolwyr penodol ar gyfer y myfyrwyr hyn, cyfathrebiadau sydd wedi eu targedu'n benodol atynt hwy, ac mae hefyd ddata am brofiad y myfyrwyr sydd wedi ei haenu i wahanu'r myfyrwyr israddedig a'r myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir er mwyn ystyried y gwahaniaeth mewn profiad rhwng y ddau grŵp.

50 Goruchwylir profiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe gan y Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig, sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Academaidd

ac a sefydlwyd yn 2016. Mae'r amcanion strategol ar gyfer ymchwil ôl-raddedig wedi eu cynnwys yn y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi (2017-20) sy'n mynegi'r bwriad i gryfhau portffolio ymchwil y Brifysgol drwy ddarparu profiad ac amgylchedd ymchwil rhagorol i'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ac sydd wedi bod ar waith ochr yn ochr â chynnydd o 73% yn y nifer o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a dderbyniwyd rhwng 2013-14 a 2018-19. Yn 2019-20, sefydlwyd Strategaeth Hyfforddiant Doethurol a Grŵp Goruchwylio Llywodraethol hefyd i oruchwylio rhaglenni gradd doethuriaeth wedi eu seilio ar garfanau penodol.

51 Y Deon Ymchwil Ôl-raddedig yw'r arweinydd academiaidd strategol ar gyfer dull y Brifysgol o wella profiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Mae'r Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig, dan arweiniad y Deon Ymchwil Ôl-raddedig a gydag aelodau o blith Cyfarwyddwyr Ymchwil Ôl-raddedig ar lefel y colegau a chynrychiolwyr y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ymhob coleg, yn gweithredu fel is-bwyllgor i'r Pwyllgor Ymchwil a'r Pwyllgor Arloesi a'r Pwyllgor DAA, gan gydnabod cyd-aelodaeth y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig mewn cymunedau ymchwil a chymunedau myfyrwyr.

52 Clywir sylwadau'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig drwy gynrychiolwyr y myfyrwyr hyn, a thrwy fforwm trafod i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n cyfarfod nifer o weithiau drwy gydol y flwyddyn a thrwy arolwg blynyddol o brofiad myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n ymwybodol o'u cyfleoedd i roi adborth ac roedden nhw'n gwybod pwy oedd eu cynrychiolwyr myfyrwyr.

53 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Brifysgol wedi gweithredu rhaglen drawsnewid mewn perthynas â'i darpariaeth ymchwil ôl-raddedig. Mae hon wedi cynnwys sefydlu'r Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig yn 2016, penodi'r Deon Ymchwil Ôl-raddedig, cynnig ysgoloriaethau newydd, adolygu'r trefnau goruchwylio ac hefyd gynhyrchu rhaglen o waith dan y teitl 'Materion Ymchwil Ôl-raddedig' sydd wedi ei llunio i dargedu gwelliannau mewn agweddau penodol o brofiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Hefyd, gwelodd y tîm adolygu bod systemau gwell wedi eu rhoi ar waith i fonitro ac adolygu data am fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig drwy'r Dangosfwrdd Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig (gwelwch adran 4.5). Yn 2018-19, gwnaeth y Brifysgol adolygiad o iechyd a lles y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ac mae wedi gweithredu argymhellion megis gwella'r wybodaeth am y cyswllt y mae myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig wedi ei gael gyda'r Gwasanaethau Lles. O ganlyniad, roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n cydnabod bod gwelliant sylweddol yng nghydlynid profiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, a'r agwedd tuag atynt, dros y blynyddoedd niferus diwethaf. Dywedodd y myfyrwyr hyn eu bod wedi elwa'n arbennig o gyflwyniad y System Rheoli Ymchwil ar-lein sy'n sicrhau bod pawb yn deall yn glir beth yw'r disgygliadau am amllder yr oruchwyliaeth a'r prosesau monitro cynnydd.

54 Darperir cyfleoedd datblygiad i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig drwy'r Fframwaith Hyfforddiant Ôl-raddedig a adnewyddwyd yn 2017 gyda changen i fyfyrwyr ac i oruchwylwyr sy'n cynnwys hyfforddiant gorfodol i oruchwylwyr newydd. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod cynnydd wedi bod ers 2017 yn y nifer a gymerodd hyfforddiant, ac y gall myfyrwyr wneud cofnod o'r hyfforddiant y maent wedi bod arno yn eu proffiliau ar y System Rheoli Ymchwil ôl-raddedig.

55 Roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n gadarnhaol am yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael yn gyffredinol, gan gynnwys y gefnogaeth i helpu myfyrwyr sy'n addysgu i wneud cais am statws Cymrawd Cyswllt AAU. Yn ystod yr ymweliad, clywodd y tîm adolygu adborth tra amrywiol am ddisgygliadau o'r addysgu ar draws y colegau. Nododd y tîm nad yw polisïau'r Brifysgol ynghylch amser addysgu'r myfyrwyr yn berthnasol i fyfyrwyr di-dâl ac, o ganlyniad, nid yw'r amser y mae'r myfyrwyr hyn yn ei dreulio'n addysgu'n cael ei safoni yn yr un ffordd ag y mae i fyfyrwyr cyflogedig.

## 2.5 Cefnogi'r myfyrwyr i'w datblygu fel dysgwyr

56 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn amcanu i ddarparu amgylchedd cefnogol a chynhwysol, ac mae wedi gweithredu ystod o fentrau integredig i gefnogi'r myfyrwyr wrth iddynt ddatblygu fel dysgwyr ac i'w galluogi i gyflawni'r canlyniadau personol, academiaidd a chyflogaeth gorau un.

57 Mae'r Brifysgol wedi symud o system tiwtoriaid personol i dull sydd wedi ei seilio ar fentora academiaidd, a'i gyfuno â gwell cymorth i fyfyrwyr gyda'u sgiliau astudio a lles. Roedd tystiolaeth o gyfraniad y myfyrwyr i Academi Cyflogadwyedd Abertawe, ynghyd â sylwadau gan rai o'r myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw, yn gadarnhaol ynghylch y dull mentora academiaidd.

58 Mae'r Ganolfan Llwyddiant Academiaidd yn cynnig rhaglen gyfoethog o gyrsiau cymorth academiaidd i fyfyrwyr ar bob lefel ond mae ei ffocws ar fyfyrwyr israddedig. Mae tiwtoriaid Llwyddiant Academiaidd yn y Ganolfan Llwyddiant Academiaidd yn gweithio'n agos ag arbenigwyr yn y meysydd astudio academiaidd i integreiddio hyfforddiant mewn sgiliau penodol yn y cwricwlwm ar lefel y meysydd astudio. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys datblygu sgiliau mathemateg ac ystadegau, sgiliau ysgrifennu ac addysgu arbenigol i gefnogi myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu arbennig.

59 Nododd y tîm adolygu fod gweithgareddau'r Ganolfan Llwyddiant Academiaidd wedi eu hintegreiddio â dull strategol ehangach y Brifysgol, er enghraifft, drwy gyfrwng tiwtoriaid y Ganolfan Llwyddiant Academiaidd sy'n gweithio gyda Thîm Ymgynraedd yn Ehangach y Brifysgol i gefnogi trosglwyddiad y myfyrwyr ehangu mynediad i'r rhaglen 'Camu Ymlaen i Brifysgol Abertawe' a thrwy dreialu'r defnydd o ddysgu gan gymheiriaid, gan ddefnyddio myfyrwyr Lefel 5/6 i hwyluso grwpiau astudio i fyfyrwyr Lefel 4 i'w cefnogi i ddeall cynnwys y pwnc a datblygu eu sgiliau academiaidd a'u sgiliau astudio annibynnol.

60 Mae Gwasanaethau Hyfforddi Iaith Saesneg y Brifysgol yn darparu amrywiaeth o gyrsiau cyn neu yn ystod y sesiwn academiaidd neu'r gwyliau haf sy'n canolbwyntio ar sgiliau academiaidd yn y Saesneg ac ar alluogi i fyfyrwyr cyn-mynediad fodloni'r gofynion mynediad iaith Saesneg angenrheidiol. Hefyd, mae staff y Gwasanaethau Hyfforddi hyn yn gweithio gyda staff yn y meysydd astudio academiaidd i integreiddio darpariaeth yn y rhaglenni perthnasol mewn meysydd astudio megis busnes a pheirianeg, lle mae nifer uchel o fyfyrwyr rhyngwladol.

61 Mae staff llyfrgelloedd y Brifysgol yn gweithio'n agos â'r darlithwyr yn y meysydd astudio academiaidd i ddarparu cymorth gyda sgiliau llythrennedd gwybodaeth, ac mae'r Brifysgol wedi datblygu ei Strategaeth Trawsnewid Digidol i gynhyrchu Fframwaith ar gyfer Llythrennedd Gwybodaeth a Llythrennedd Digidol i helpu darlithwyr i fabwysiadu dull graddol o ymwreiddio'r sgiliau hyn yn eu rhaglenni. Arweinir datblygiad a darpariaeth y gwasanaethau llyfrgell gan y Strategaethau Llyfrgell, Cynlluniau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd a'r Cynlluniau Gweithredu perthnasol ar gyfer Profiad y Myfyrwyr.

62 Un o'r meysydd a gyflwynwyd gan y Brifysgol i ganolbwyntio arno yn yr adolygiad hwn oedd cyflogadwyedd, gan adlewyrchu'r pwyslais y mae'r Brifysgol wedi ei roi ar y maes hwn ers 2012. O ganlyniad i'r pwyslais hwn mae'r Brifysgol wedi dod yn un o'r sefydliadau rheng uchaf yn y DU am gyflogadwyedd graddedigion a chyfrannodd hyn yn sylweddol at lwyddiant y Brifysgol i ennill Gwobr Aur y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu yn 2018.

63 Yn arwain datblygiad a goruchwyliaeth strategol y maes hwn mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe, sy'n gweithio i ddarparu Strategaeth Academi Cyflogadwyedd Abertawe. Mae Bwrdd Strategaeth Academi Cyflogadwyedd Abertawe'n cynnwys 35 o bartneriaid allanol, gan gynnwys cyflogwyr mawr yn y rhanbarth a chwmnïau amlwladol. Mae strwythurau cyflogadwyedd wedi eu hymwreiddio ar lefelau'r colegau a'r meysydd astudio,

ac mae cyfarwyddwyr cyflogadwyedd a chynrychiolwyr y myfyrwyr ymhob coleg yn gyfrifol am yrru mentrau cyflogadwyedd yn eu meysydd hwy. Mae cyflogadwyedd yn eitem sefydlog i'w thrafod yng nghyfarfodydd Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd y Brifysgol a phwyllgorau a fforymau'r colegau. Llofnodwyd cytundeb partneriaeth rhwng Undeb y Myfyrwyr ac Academi Cyflogadwyedd Abertawe, ac mae Undeb y Myfyrwyr wrthi'n cefnogi a hyrwyddo gweithgareddau Academi Cyflogadwyedd Abertawe, gan gynnwys cynnal lleoliadau gwaith ac interniaethau yn rhan o'r 'Wythnos o Waith' drwy Rwydwaith Interniaethau â Thâl Abertawe (SPIN).

64 Clywodd y tîm adolygu am y gwaith a wnaed gan y Brifysgol, mewn partneriaeth â chyflogwyr, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gyfleoedd ar lefel y sefydliad ac hefyd wedi ei ymwreiddio mewn rhaglenni gradd. Hysbysir y datblygiadau academaidd gyda chyfraniadau gan gyflogwyr. O'i drafodaethau gyda'r myfyrwyr a'r cyflogwyr, gallai'r tîm gadarnhau'r darlun cadarnhaol o'r maes hwn a gyflwynwyd gan y Brifysgol.

65 Hefyd, cyflwynodd y Brifysgol symudedd myfyrwyr fel maes i ganolbwyntio arno yn yr adolygiad hwn, ac mae tystiolaeth bellach o'i hymrwymiad i'r maes hwn yn ei strategaeth datblygu rhyngwladoli. Mae'r mwyafrif o drefniadau symudedd y myfyrwyr wedi eu llywio gan gytundebau cyfnewid, sy'n cynnwys y rheiny a wnaed o dan drefniadau Erasmus+. Mae'r Brifysgol yn cynnig cyfle'r rhaglen haf 'Think Pacific', y rhaglen haf 'Go Global' a'r rhaglenni a arweinir gan y colegau yn ystod yr haf, a derbyniodd gyfraddau bodddhad o 100% o blith y myfyrwyr am y ddwy raglen olaf hyn.

## **2.6 Yr amgylchedd dysgu a ddarperir, gan gynnwys y defnydd a wneir o dechnoleg**

66 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Brifysgol wedi cymryd camau i wella'r amgylchedd dysgu ffisegol, a hynny drwy fuddsoddi mewn seilwaith ar gyfer Campws y Bae newydd ac i adnewyddu'r ystâd ar Gampws Singleton. Mae'r datblygiadau wedi cynnwys darparu gofodau dysgu agored megis 'Y Twyni' ar Gampws y Bae, sydd wedi derbyn croeso gan y myfyrwyr. Mae cydlynad yr amgylchedd dysgu wedi ei arwain gan y Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a'i gefnogi gan y Gweithgor Gofodau Dysgu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r colegau, arweinwyr Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe, a'r gwasanaethau proffesiynol.

67 Mae'r Brifysgol yn gweithredu nifer o fentrau parhaus sy'n ymwneud â'r amgylchedd dysgu, gan gynnwys y fenter dan arweiniad y llyfrgell i wella hygyrchedd gofodau dysgu yn y llyfrgelloedd ac ansawdd y cyfleusterau a ddarperir yn y manau hynny. Mae'r Strategaeth Trawsnewid Digidol yn cynnwys thema sy'n ymwneud â phrofiad digidol y myfyrwyr ac a hysbysir gan adborth gan y myfyrwyr a'r staff, ac mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd cymorth a hyfforddiant staff, ynghyd â dyhead i sicrhau yr ymgynghorir ac y cyfathrebir gyda'r staff a'r myfyrwyr.

68 Prosiect y plattform dysgu digidol oedd y prif gyfrwng ar gyfer cyflwyno rhith-amgylchedd dysgu newydd, yn gyson â dyheadau'r Strategaeth Trawsnewid Digidol. Gweithredwyd proses ymgynghori, tendro a dethol gyda mewnbwn a chyfranogaeth estynedig gan y myfyrwyr a'r staff ar bob cam o'r broses. Arweiniodd hyn at benderfyniad y Brifysgol i symud o'r plattform 'Blackboard' i'r rhith-amgylchedd dysgu newydd 'Canvas' yn 2020-21.

69 O ganlyniad i gyrhaeddiad y pandemig ym mis Mawrth 2020 roedd brys a phwysigrwydd arbennig yn gysylltiedig â'r symudiad i'r rhith-amgylchedd dysgu newydd 'Canvas', oherwydd hwn yn awr fyddai'r prif blatfform ar gyfer darparu cynnig llawer mwy estynedig ar-lein o ddarpariaeth addysgu ac adnoddau dysgu ategol. Cyflawnwyd hyn yn llwyddiannus yn ystod haf 2020 ac mae'r adborth am hyn gan y myfyrwyr a'r staff y cyfarfu'r tîm â nhw wedi bod yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol, gan gynnwys y camau a gymerwyd i ymdrin â phroblemau cychwynol lle cododd y rheiny.

70 Un rhan allweddol o lwyddiant y trosglwyddiad hwn oedd y gwaith o fonitro a gwerthuso'r adborth a dderbyniwyd gan y myfyrwyr yn ystod y broses drosglwyddo. Mae gwaith y timau

staff yn Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (ADAA), y Ganolfan Llwyddiant Academaidd, y Gwasanaethau Llyfrgell a'r Gwasanaethau a Systemau Gwybodaeth wedi bod yn hanfodol hefyd i'r symudiad llwyddiannus i ddulliau darparu ar-lein, ynghyd â'r cyfraniadau gan staff academaidd ar lefelau'r disgyblaethau a'r rhaglenni. Mae wedi bod yn amserol hefyd yn y cyswllt hwn bod y Brifysgol wedi penodi Deon Technoleg Addysg yn ddiweddar sydd wedi darparu canolbwynt ar gyfer y newidiadau sydd i gael eu gwneud.

## 2.7 Cefnogi profiad dysgu'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg

71 Mae nod y Brifysgol i gefnogi profiad dysgu'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn cael ei yrru'n fewnol gan Academi Hywel Teifi sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar lefel y sector i bennu meysydd astudio ar gyfer datblygiad strategol a chynaliadwy'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae gan bob coleg Bwyllgor y Gymraeg sy'n hysbysu'r gwaith y mae'r Academi'n ei arwain ar lefel y sefydliad, a phenodir Hyrwyddwyr Academi Hywel Teifi i hyrwyddo gwaith yr Academi ymhob un o'r colegau.

72 Mae ffocws y Brifysgol wedi bod ar ddatblygu lefelau cynaliadwy o ddarpariaeth mewn meysydd astudio penodol, gan alluogi i'r mwyafrif o'r myfyrwyr fod yn gymwys naill ai i gael ysgoloriaethau cymhellant (mwy na 40 o gredydau darpariaeth) neu'r prif ysgoloriaethau (mwy nag 80 o gredydau darpariaeth) gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r dull hwn wedi arwain at gynnydd o 40% ers 2011 yn y nifer o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae 452 o fyfyrwyr israddedig wrthi ar hyn o bryd yn astudio rhyw elfen o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn tanategu cynaliadwyedd y ddarpariaeth cafwyd penodiadau newydd mewn meysydd strategol a wnaed o dan Gynllun Staffio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

73 Un maes penodol lle cafwyd datblygiad oedd gwaith cymdeithasol nad oedd darpariaeth o gwbl ynddo yn 2013 ac yn awr mae 157 o fyfyrwyr yn astudio i ennill credydau drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda 21 ohonynt yn astudio i ennill mwy na 40 o gredydau. Mae'r Brifysgol wedi datblygu adnoddau dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg yn y maes hwn, gan gynnwys lansiad llwyddiannus yr ap (Ap Gofalu trwy'r Gymraeg) i gefnogi gweithwyr gofal iechyd i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

74 Mae'r Brifysgol wedi dangos tystiolaeth o'r sylw y mae'n ei roi i sicrhau safonau ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gyflwyno polisi asesu cyfrwng Cymraeg newydd sy'n rhoi arweiniad i'r myfyrwyr a'r staff ar safoni a marcio aseiniadau a gyflwynir yn y Gymraeg, yn ogystal â chyhoeddi canllaw cynhwysfawr i sicrhau bod y gwaith, lle bo modd, yn cael ei asesu yn yr iaith y cafodd ei gyflwyno ynddi.

75 Cynigir cyfleoedd profiad gwaith yn rheolaidd i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg ac mae Academi Hywel Teifi wedi cydweithio ag Academi Cyflogadwyedd Abertawe i gynnig interniaethau SPIN er mwyn galluogi i fyfyrwyr ennill profiad a dysgu sgiliau newydd gan weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir tystiolaeth o lwyddiant y dull hwn ym metrigau'r FfRhA ar gyfer y Brifysgol yn 2017 a 2018, sy'n dangos cyfraddau cyflogadwyedd neu astudiaeth bellach o 84.6% i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg, sydd 5% yn uwch na'r gyfradd i'r corff myfyrwyr llawn amser cyfan.

## 2.8 Effeithiolrwydd y dull o wella profiad dysgu'r myfyrwyr

76 Un nodwedd o ddull y Brifysgol o wella profiad dysgu'r myfyrwyr yw ei ffocws ar bartneriaeth a synnwyr o wir ymgysylltiad rhwng y Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a'r corff myfyrwyr ehangach. Yn yr Adolygiad Sefydliadol diwethaf, cymeradwywyd y Brifysgol am y dull a ddefnyddir ganddi yn y maes hwn, ac mae wedi parhau i ddatblygu a chryfhau ei phrosesau o ymgysylltu â'r myfyrwyr yn strategol dros y blynyddoedd diwethaf.

77 Mae cryfder ac effeithiolrwydd dull y Brifysgol i'w gweld yn glir yn y ffordd y mae wedi gallu addasu ddarpariaeth ei dysgu a'i haddysgu'n gyflym ac yn effeithlon mewn ymateb



i'r pandemig COVID-19, gan gadw synnwyr o bartneriaeth ac ymgysylltiad ar yr un pryd (gwelwch y ganmoliaeth yn adran 3.2).

78 Roedd y tîm adolygu o'r farn bod meysydd a bennwyd yn flaenorol fel rhai oedd angen eu datblygu, ac yn fwyaf nodedig maes goruchwylio cynnydd y myfyrwyr a chyflawniad rhaglenni ymchwil ôl-raddedig, wedi derbyn sylw effeithiol ac yn dechrau dod yn rhan naturiol o weithdrefnau'r Brifysgol erbyn hyn (gwelwch adrannau 2.4 a 4.4).

79 Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei hystâd ffisegol, yn fwyaf nodedig drwy agor Campws y Bae, ac mae hefyd wedi llwyddo i drosglwyddo'n gyflym ac yn llwyddiannus i 'Canvas', ei phlatfform rhith-amgylchedd dysgu newydd dros haf 2020. Mae'r trosglwyddiad hwn i'r platfform 'Canvas' wedi bod yn arbennig o bwysig i alluogi i'r Brifysgol symud llawer o'i darpariaeth i ddull o ddarparu dysgu cyfunol/ar-lein ar gyfer sesiwn academaidd 2020-21.

80 Yn allweddol i effeithiolrwydd dull y Brifysgol o gefnogi myfyrwyr gyda'u dysgu roedd adborth gan fyfyrwyr i hysbysu ei gwaith o ddatblygu strategaethau, gwneud penderfyniadau am bolisi a darparu gwelliannau gweithredol i brofiad dysgu'r myfyrwyr. Mae'r system adborth 'Unitu' yn galluogi i'r brifysgol fonitro ac ymateb yn weithredol i farn y myfyrwyr mewn 'amser real', gan alluogi iddi fod yn fwy ystwyth ac ymatebol i anghenion ei myfyrwyr. O gyfuno hynny gyda synnwyr cryf o bartneriaeth go iawn rhwng y Brifysgol a'i myfyrwyr, lle mae Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr yn chwarae rôl arweiniol, mae'r tîm yn teimlo bod dull y Brifysgol o wella profiad dysgu'r myfyrwyr yn effeithiol ac hefyd yn wirioneddol gydwethredol.

### 3 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu

#### 3.1 Y dull strategol o gynllunio i'r dyfodol, gan gynnwys y defnydd a wneir o wybodaeth er mwyn pennu blaenoriaethau o ran gwella'r dysgu a'r addysgu, a'r dulliau o'u gweithredu a'u gwerthuso

81 Mae seilwaith y Brifysgol yn cefnogi dull strwythuredig effeithiol o gynllunio i'r dyfodol, gyda'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd sy'n cysoni goruchwyliaeth strategol â darpariaeth, ac sy'n adrodd i'r Senedd. Mae'r Pwyllgor DAA yn goruchwyllo'r gwaith o sicrhau a gwella ansawdd y dysgu, yr addysgu a phrofiad y myfyrwyr, gan gynnwys myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Mae nifer o is-bwyllgorau'n bwydo i mewn i'r Pwyllgor DAA: y Pwyllgor Ansawdd Data Academaidd, Bwrdd Rheoliadau ac Achosion Academaidd, y Bwrdd Partneriaeth Gydweithredol, y Bwrdd Rheoli Rhaglenni, y Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni, y Bwrdd Dilyniant a Dyfarnu a'r Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig. Mae Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu ar lefel y colegau, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu'r colegau, yn adrodd i'r Pwyllgor DAA.

82 Datblygwyd Strategaeth Dysgu ac Addysgu 2019-24 y Brifysgol gan grŵp datblygu strategaeth gyda chyfraniad gan y myfyrwyr. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys y Dirprwy Is-Ganghellor Addysg, Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu'r colegau, ac Undeb y Myfyrwyr. Mae'r strategaeth hon yn disgrifio dull strwythuredig o wella sy'n gweithredu mewn cylch blynyddol, gyda'r Grŵp Llywio Strategaeth Dysgu ac Addysgu sy'n adrodd i'r Pwyllgor DAA, a rhaglen prosiect ar gyfer 2019-20 sy'n cael ei gweithredu drwy Gynllun Gwella Arferion Dysgu ac Addysgu i'r brifysgol gyfan. Mae'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu'n cynnwys amcanion a themâu allweddol sydd wedi eu cysoni ag 'Ymrwymadau'r Canmlwyddiant' penodedig, gyda ffocws gan y brifysgol yn 2019-20 ar wella asesiadau ac adborth. Mae penodiadau staff diweddar, megis y Deon Adborth ac Asesu, yn cefnogi'r gwaith hwn. Yn unol â'i ffocws ar flaenoriaethau cenedlaethol, mae'r Brifysgol yn darparu cyrsiau mewn meysydd astudio galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r rhain wedi parhau'n ddi-dor ers mis Mawrth ar-lein.

83 Mae Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (ADAA) yn cynnig y dulliau addysgu diweddaraf, yn darparu cymorth addysgu ac yn gweinyddu cynllun gwobrwyo addysgu i staff. Yn ogystal, mae'r staff yn mynd i gynhadledd flynyddol ADAA. Mae Cyfarwyddwr ADAA yn mynychu'r Pwyllgor DAA. Bu ADAA yn cefnogi athrawon i gynnal ansawdd y ddarpariaeth a pharhau i addysgu yn ystod y pandemig COVID-19, gyda symudiad strategol i addysgu ar-lein ac yna i ddarpariaeth addysgu gyfunol.

84 Mae'r Pwyllgor Ansawdd Data Academaidd yn monitro'r tirlun data, gan ddefnyddio ffynonellau a metrigau allanol, megis data am foddhad y myfyrwyr a'r adborth ansoddol a roddwyd ganddynt, nifer y myfyrwyr sy'n parhau i astudio, a chanlyniadau'r graddedigion, i roi trosolwg. Mae'r Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol yn datblygu a dosbarthu dangosyddion perfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol ar lefel y sefydliad, ac mae'r rhain yn hysbysu Cynlluniau Gweithredu i Wella Profiad Myfyrwyr ac Adroddiadau Adolygu Rhaglenni Blynyddol ar lefel y colegau. Mae adroddiadau'r broses o adolygu rhaglenni'n flynyddol yn cynnwys ymateb i broblemau a welwyd yn ymwneud â'r dysgu a'r addysgu.

85 Mae'r Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol yn darparu ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol, a bennwyd gan y brifysgol, i benaethiaid y colegau. Mae'r rhain yn mesur perfformiadau megis codi sgôr y Brifysgol yn yr ACF am asesiadau ac adborth. Mae Cynlluniau Gweithredu Integredig y colegau'n tracio'r datblygiad.

86 Mae Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r colegau, y Pwyllgor DAA a'r Senedd wedi sicrhau bod diweddariad o'r rheoliadau'n weithredol ac yn cael eu hadolygu yn ystod y pandemig COVID-19. Ystyrir bod casglu adborth yn barhaus gan y myfyrwyr yn elfen ganolog o sicrhau cysondeb mewn dysgu ac addysgu.

### 3.2 Y dulliau o reoli newidiadau mewn dulliau o ddysgu ac addysgu

87 Gellir gweld dull y Brifysgol o ymdrin â newidiadau yn y dysgu a'r addysgu yn ei hymateb ystwyth a chadarn i'r heriau a gododd yn sgil y pandemig COVID-19; ers mis Mawrth 2020, mae'r addysgu wedi symud i'r we ac yna i ddull cyfunol. Roedd y newidiadau hyn yn gyflym ac roedd y staff a'r myfyrwyr yn eu hystyried yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy. Mae datblygiadau newydd ym maes technoleg wedi cefnogi'r newidiadau hyn, er enghraifft symudwyd y plattform dysgu i'r plattform 'Canvas', a chyflwynwyd y system rheoli 'e:Vision' i gefnogi myfyrwyr ôl-raddedig gyda'u dysgu. Mae Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r colegau, y Pwyllgor DAA a'r Senedd yn goruchwylio newidiadau, ac mae'r Dirprwy Is-Ganghellor Addysg yn arwain y gwaith ar strategaethau cyffredinol. Mae arferion lleol wedi bod yn werthfawr hefyd, megis grŵp STEM cyfunol sy'n adolygu ac yn cynllunio'r ddarpariaeth dysgu cyfunol ac ar-lein. Cafodd y sesiynau addysgu eu hamserlennu'n hyblyg, a chafwyd rhai addasiadau i'r dyddiadau cychwyn. Mae Polisi Rhwyd Ddiogelwch wedi sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwr dan anfantais oherwydd y newidiadau.

88 Hysbysir y dulliau hyn drwy sganio'r dulliau a ddefnyddir yn y sector a gan staff Prifysgol Abertawe sy'n cymryd rhan mewn grwpiau sydd â diddordeb arbennig yn y cwricwlwm ar lefel genedlaethol. Gwneir defnydd eang o ddata i hysbysu a gwerthuso newidiadau, ac mae'r Pwyllgor Ansawdd Data Academaidd yn ganolog i'r gwaith o'i gofnodi a'i ledaenu, o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor DAA. Mae penodiadau newydd, megis y Deon Adborth ac Asesu, yn cyfateb â strategaeth y Brifysgol i fuddsoddi yn yr agenda i sicrhau gwelliant, a chefnogir ei gweithrediad gan ADAA. Mae ADAA wedi bod yn allweddol i gefnogi staff sefydledig a rhai sydd newydd eu cyflogi i gyflwyno arferion addysgu arloesol. Defnyddir dulliau ffurfiol megis arsylwi gan gymheiriaid, a rhai sy'n anffurfiol megis y polisi 'drws agored', i rannu arferion newydd.

89 Mae ymgysylltu â'r myfyrwyr a chasglu adborth ganddynt wedi bod yn ganolog i gefnogi newid. Mae'r colegau'n defnyddio fforymau myfyrwyr i hysbysu cynlluniau dysgu ac addysgu ac i adolygu polisiâu, megis y Polisi Rhwyd Ddiogelwch, o dan y Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr. Mae'r data gan y myfyrwyr yn cynnwys yr holl arolygon myfyrwyr megis yr ACF a'r arolygon o brofiad myfyrwyr, yr adborth am fodiwlau, a'r adborth di-oed ar ddiwedd pob darlith. Gofynnodd y Coleg Gwyddoniaeth, er enghraifft, am adborth gan y myfyrwyr am wahanol ddulliau dysgu ac addysgu ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig, ynghyd â holiadur staff, i hysbysu cynlluniau addysgu. Mae'r myfyrwyr yn bwydo i mewn i Fyrddau Astudiaethau ac yn derbyn gwybodaeth reolaidd gan y Brifysgol am y rheoliadau a'r dulliau sydd ar y gweill. Gwelodd y tîm adolygu barhad y dysgu a'r addysgu o dan amgylchiadau heriol, a boddhad y myfyrwyr gyda'r trefniadau hyn, ac mae'n **canmol** ystwythder ac ymatebolrwydd y camau gweithredu a gymerwyd gan y Brifysgol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 er mwyn sicrhau parhad y dysgu a'r addysgu a phrofiad y myfyrwyr.

### 3.3 Y dulliau o gefnogi arloesi, a chanfod a rhannu arferion da

90 Datblygir arferion addysgu arloesol ar lefel y colegau, fel y gwelir yn yr enghraifft a ddisgrifiwyd i'r tîm adolygu am grŵp STEM oedd yn gweithio i ddatblygu darpariaeth ddiddorol ac atyniadol ar-lein, ac hefyd drwy sganio'r dulliau a ddefnyddir yn y sector. Mae mentrau'n cael eu cofnodi a'u dosbarthu drwy ADAA, gan weithio gydag aelodau unigol o'r staff a darparu cynhadledd staff flynyddol ar faterion dysgu ac addysgu. Clywodd y tîm adolygu fod cymorth ADAA wedi bod yn bwysig er mwyn cefnogi staff drwy'r newidiadau i symud y ddarpariaeth i'r we o fis Mawrth ymlaen er enghraifft, a bod y gynhadledd yn effeithiol ac wedi ennyn croeso gan y staff. Hefyd, clywodd y tîm adolygu fod aelodau o'r staff wedi cymryd rhan mewn cynadleddau cenedlaethol megis y rhai a gynhelir gan yr Academi Addysg Uwch/Advance HE, a grwpiau diddordeb arbennig. Dosberthir yr adborth o'r rhain ynghyd â'r holl arferion da ar lefel y colegau a'r adrannau drwy gyfrwng cyfarfodydd staff lle trafodir themâu megis defnyddio meddalwedd cipio sgrin. Dywedwyd bod y cymorth i aelodau newydd o'r staff gan ADAA yn rhagweithiol ac effeithiol. Cefnogir yr arfer o rannu arferion da'n anffurfiol gan bolisi

'drws agored' ac mae hyn wedi ei gydnabod yn nodwedd o arfer da. Fel sydd wedi ei ddisgrifio yn adran 3.4, mae'r Brifysgol wedi mynd ati'n weithredol i ymgysylltu â chynllun Cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch/Advance HE ar gyfer aelodau newydd o'r staff a rhai sy'n fwy profiadol.

91 Mae technolegau newydd megis y plattform 'Canvas', y system rheoli 'e:Vision' a'r Dangosfwrdd Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig, a gyflwynwyd ar sail Strategaeth Trawsnewid Digidol gadarn, wedi bod yn effeithiol o ran cefnogi dysgu ac addysgu ac mae'r staff a'r myfyrwyr yn eu croesawu. Gwnaethpwyd prosiect peilot ar ddysgu cyfunol ledled y Brifysgol rhwng 2017 a 2019.

92 Mae'r Brifysgol yn gweithredu proses o arsylwi gan gymheiriaid sy'n ofynnol i'r holl staff academiaidd ac a luniwyd i hysbysu'r broses o adolygu datblygiad personol. Cafodd y system ei hadolygu a'i gwella ar gyfer sesiwn academiaidd 2019-20. Clywodd y tîm adolygu fod hyn yn gweithio'n dda ar lefel leol a'i fod yn rhan o ofynion y Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch; dywedodd y staff bod y cynllun yn fuddiol o ran rhannu dulliau arloesol, ei fod yn cael ei gymryd o ddifrif, a bod ADAA yn bwriadu casglu a lledaenu arferion da drwy gyfrwng y gynhadledd staff flynyddol, er enghraifft. Ond, mae'r Brifysgol yn cydnabod bod rhai anghysonderau yn ei weithrediad ac mae'r tîm adolygu'n croesawu ac yn **cadarnhau** r camau sy'n cael eu cymryd i adolygu polisi'r sefydliad ar arsylwi gan gymheiriaid er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llawn a bod arferion da a meysydd sydd angen eu datblygu'n cael eu casglu a'u lledaenu'n systematig.

### 3.4 Cefnogi a datblygu staff ac ymgysylltu â nhw

93 Mae'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu a gyflwynwyd ac a arweinir gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg), y Pwyllgor DAA a Chyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu'r colegau, yn cefnogi diwylliant ymysg y staff o ymgysylltu, cydweithio a datblygu ar y cyd. Hysbysir y dull hwn gan amgylchedd cynhwysol, nod er rhagoriaeth a chydweithio â'r myfyrwyr. Clywodd y tîm adolygu sylwadau cadarnhaol gan y staff a'r myfyrwyr mewn perthynas â'u cyfranogaeth a'u hymgysylltiad â'r sefydliad. Cefnogir yr amgylchedd cynhwysol gan ymgysylltiad â'r cynllun Athena SWAN i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac mae gan y Brifysgol wobr Arian y cynllun hwn. Clywodd y tîm adolygu fod meysydd astudio megis nyrsio, peirianeg a ffiseg yn amcanu i fod yn gydradd â, neu'n uwch na'r meincnodau cenedlaethol yn y meysydd astudio hyn ac mae'r gwaith hwn yn barhaus yn nhermau recriwtio, cynrychioli a monitro. Mae'r Coleg Peirianeg wedi sicrhau gwobr Arian ac mae'r Adran Ffiseg a'r Ffowndri Gyfrifiadurol (cyfrifiadureg a mathemateg) wedi sicrhau gwobrau Efydd Juno ac/neu Athena SWAN. Mae arweinydd penodol ar gyfer y gwasanaethau proffesiynol yn sicrhau bod ffocws parhaus ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae hyfforddiant yn y maes hwn yn orfodol i'r staff i gyd. Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol wrthi'n datblygu ei Strategaeth Iechyd a Lles er mwyn gweithredu a datblygu dull cyfannol o ymdrin ag iechyd a lles.

94 Adolygir datblygiad proffesiynol ddwywaith y flwyddyn i'r staff i gyd gan ddefnyddio system ar-lein, ac mae rhagoriaeth mewn addysgu'n cael ei chydabod drwy gynlluniau gwobrwyo sy'n cynnwys enwebiadau gan y myfyrwyr. Mae dyrchafiad y staff yn cynnwys Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu hyd lefel broffeswrol, gyda thri llwybr gyfaol sydd wedi eu seilio ar arferion addysgu ac ysgolheictod, neu arloesi ac ymgysylltu (mae trydydd llwybr yn canolbwyntio ar ragoriaeth mewn ymchwil).

95 Gofynnir fod pob aelod newydd o'r staff academiaidd yn cofrestru ar y cymhwyster Tystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch; ac, er bod hwn yn waith caled, clywodd y tîm adolygu fod aelodau newydd o'r staff yn ei ganmol am eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau a'u bod yn ei groesawu. Mae darlithwyr Llwyddiant Academiaidd ac ADAA yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu'r addysgu ar draws y campysau. Mae'r staff yn disgrifio diwylliant o gydweithio i rannu arferion da, drwy'r polisi 'drws agored' a'r cynllun arsylwi gan gymheiriaid a ddisgrifir uchod, a gwneir y rhannu hwn yng nghyfarfodydd yr adrannau.

96 Mae'r Brifysgol wedi mynd ati'n weithredol i ymgysylltu â chynllun Cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch/Advance HE ar gyfer aelodau newydd o'r staff a rhai sy'n fwy profiadol. Mae targed gan y Brifysgol i sicrhau cydnabyddiaeth o dan y cynllun hwn i 700 o Gymrodorion erbyn 2020. Mae hwn yn waith parhaus; roedd mwy na 500 o aelodau'r staff yn Gymrodorion yr Academi Addysg Uwch ym mis Mehefin 2019 ar draws y llwybrau Ymchwil, Addysgu ac Arloesi/Ymgysylltu. Roedd aelodau o'r staff oedd newydd eu penodi'n siarad yn gadarnhaol am eu cais i gael statws Cymrawd Cyswllt. Mae'r cynllun wedi parhau drwy gyfnod heriol y pandemig COVID-19.

97 Cefnogir y staff i ddarparu'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chefnogaeth Academi Hywel Teifi, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Pwyllgorau Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg y colegau a'r ysgolion, a gan y colegau eu hunain.

### **3.5 Effeithiolrwydd y dulliau o weithredu strategaethau sefydliadol a gwella'r dysgu a'r addysgu**

98 Mae'r dull o wella'r dysgu a'r addysgu yn ddull effeithiol sydd â ffocws. Mae Gwobr Aur y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a roddwyd i'r Brifysgol yn tystio i hynny. Cyfradd y myfyrwyr israddedig sy'n parhau i astudio yw 95% neu'n uwch, a hynny ymhob blwyddyn astudio, ac mae nifer y myfyrwyr yn y Brifysgol sy'n symud ymlaen i wneud astudiaeth ôl-raddedig wedi parhau'n nifer dda. Mae canran y myfyrwyr graddedig sy'n llwyddo i gael swydd yn llawer uwch na meincnod y sector. Dyfarnwyd teitl Prifysgol y Flwyddyn i'r Brifysgol yng Ngwobrau Dewis y Myfyrwyr gan WhatUni yn 2019.

99 Mae'r staff wedi croesawu cynhadledd dysgu ac addysgu flynyddol ADAA ac mae gwaith Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe a'r Ganolfan Llwyddiant Academaidd yn cefnogi ei dulliau o sicrhau cynhwysiad ei myfyrwyr. Clywodd y tîm adolygu fod y symudiad i'r platfform ar-lein 'Canvas' wedi ei groesawu er gwaethaf yr heriau wrth ei roi ar waith. Clywodd hefyd bod y myfyrwyr a'r staff wedi croesawu'r system rheoli 'e:Vision' a bod y Dangosfwrdd Myfyrwyr Ôl-raddedig yn galluogi i'r staff a'r myfyrwyr olrhain eu datblygiad yn llawer mwy effeithiol.

100 Siaradodd y myfyrwyr mewn ffordd gadarnhaol am eu profiadau diweddar o ddysgu ar-lein, sydd yn amlwg wedi bod yn rhan o strategaeth wedi ei chynllunio, o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor DAA, sy'n sicrhau y glynir at bolisiau a gweithdrefnau. Mae'r dulliau addysgu newydd yn gynaliadwy, ac ni ragwelir unrhyw effaith bellach ar reoliadau (gwelwch baragraff 86). Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi parhau'n ddi-dor ar-lein yn ystod y pandemig. Ym marn y staff a'r myfyrwyr, mae'r Polisi Rhwyd Ddiogelwch wedi gweithio'n dda (gwelwch y canmoliaethau yn adrannau 3.2 a 4.7).

## 4 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academiaidd

### 4.1 Nodweddion allweddol dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu

101 Gweithredir dull y Brifysgol o reoli sicrwydd ansawdd drwy brosesau a gweithdrefnau ar lefelau'r brifysgol, y colegau, y meysydd astudio a'r rhaglenni. Mae'r fframwaith rheoleiddio academiaidd yn disgrifio'r cyfrifoldebau am reoli ansawdd, ac mae'n cynnwys polisïau ategol. Mae'r dull hwn wedi ei gysoni â Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd), y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ)*, *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* a'r gofynion achredu gan gyrrff PSRB. Ceir tystiolaeth o hyn yn y codau ymarfer mewnol a'r gwaith mapio estynedig a wneir yn erbyn y Cod Ansawdd (2018). Mae'r Brifysgol yn cefnogi'r iaith Gymraeg yn unol â'r Safonau Iaith Gymraeg (2018).

102 Er bod yr atebolrwydd ffurfiol am ansawdd a safonau ar ysgwyddau'r Senedd, sy'n adrodd i Gyngor y Brifysgol, y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd (Pwyllgor DAA) sy'n goruchwyllo'r prosesau rheoli ansawdd. Mae gan y pwyllgor hwn gylch gwaith sy'n canolbwyntio ar sicrhau a gwella ansawdd, profiad y myfyrwyr ac ymgysylltu â'r myfyrwyr, y strategaeth mewn perthynas â'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, a phennu a gweithredu strategaeth y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor DAA yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd, ac adolygu a monitro ansawdd a safonau. Y Pwyllgor DAA sy'n goruchwyllo ansawdd y rhaglenni a addysgir a phrofiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Mae'r strategaeth ymchwil ôl-raddedig yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Strategaeth Ymchwil ac Arloesi.

103 Wrth weithredu ei gyfrifoldeb am fonitro ymlyniad at bolisiau a rheoliadau academiaidd, cefnogir y Pwyllgor DAA gan rwydwaith o is-bwyllgorau. Ychwanegir at y gwaith o ddatblygu ansawdd academiaidd ar draws y sefydliad gan bedair academi - sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu, cyflogadwyedd myfyrwyr, llwyddiant dysgwyr, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gweithredir yr oruchwyliaeth weithrediadol ar faterion rheoliadol gan y Gwasanaethau Ansawdd Academiaidd, sy'n rhoi arweiniad ar reoli ansawdd a safonau. Yn cyflenwi'r seilwaith ar lefel y sefydliad ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd mae pwyllgorau ymgynghori trawsgolegol, a chymunedau ymarfer i'r Brifysgol gyfan sy'n hwyluso ymgysylltiad y gymuned academiaidd ehangach a'r cyd-gyfrifoldeb am reoli ansawdd a pherfformiad y Brifysgol. Mae'r Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu ar lefel y colegau, sy'n adrodd i'r Pwyllgor DAA ac y mae Byrddau Astudiaethau'n adrodd iddynt, yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau i'r colegau o ran gwelliant, ac am fonitro profiad y myfyrwyr. Cefnogir y gwaith o reoli ansawdd ymhellach ar lefel y colegau gan Gyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu a chyfarwyddwyr rhaglenni. Ychwanegir at y trefniadau hyn ar draws y Brifysgol gan y Fforwm Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu. Mae canllawiau ar gael i'r myfyrwyr a'r staff ar faterion sicrhau ansawdd, megis cynllunio a datblygu rhaglenni a modiwlau.

104 Mae system rheoli ansawdd y Brifysgol yn ymgorffori cynrychiolaeth y myfyrwyr ar bob lefel o'r prosesau ffurfiol o wneud penderfyniadau, ac mae'n cynnwys y myfyrwyr mewn prosesau monitro ac adolygu. Nododd y tîm adolygu enghreifftiau o gyfraniad gan y myfyrwyr at flaenoriaethau gwelliant y Brifysgol mewn perthynas â dysgu ac addysgu, megis camau gweithredu i ymdrin ag asesiad ac adborth. Mae'r Brifysgol wedi gwneud gwelliannau pellach i gyfraniad y myfyrwyr tuag at reoli ansawdd y dysgu drwy sefydlu panel barn i'r myfyrwyr a Chymuned o Fyfyrwyr Adolygu; mae'r olaf yn cynnwys y myfyrwyr mewn prosesau adolygu ansawdd bob pum mlynedd. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn gwerthfawrogi cyfleoedd fel hyn yn fawr iawn.

105 Talodd y tîm adolygu sylw manwl i'r trefniadau llywodraethu academiaidd a sicrhau ansawdd hyn wrth ystyried ymateb y Brifysgol i'r pandemig COVID-19 (gwelwch y ganmoliaeth yn adran 4.7).

## 4.2 Nodweddion allweddol y dulliau o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academiaidd

106 Mae dull y Brifysgol o osod, cynnal, adolygu, ac asesu safonau academiaidd yn cynnwys prosesau ar gyfer cymeradwyo ac adolygu rhaglenni. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth eang o reoliadau a phrosesau a ddefnyddir i wneud asesiad trwyadl o gyrhaeddiad y myfyrwyr ac i ddefnyddio safonau priodol wrth ddyfarnu graddau (gwelwch adran 4.7).

107 Mae rheoli portffolio, sef un o'r meysydd i ganolbwyntio arnynt yn yr adolygiad hwn, yn ymestyn ar draws cylch oes y rhaglen - o'r dystiolaeth gychwynnol o gysyniad i gymeradwyo'r rhaglen. Mae'r Bwrdd Rheoli Rhaglenni, yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol, â'r Tîm Gwybodaeth am y Farchnad yn defnyddio'r broses o gynllunio busnes i adolygu hyfywedd y ddarpariaeth ac i bennu meysydd newydd i gael blaenoriaeth strategol. Nododd y tîm adolygu enghreifftiau lle'r oedd buddsoddiadau mawr mewn mentrau strategol, a hysbyswyd gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, wedi eu gweithredu'n llwyddiannus.

108 Mae'r staff academiaidd yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i lunio rhaglenni. Pan fydd rhaglenni'n cael eu datblygu gyda phartneriaid cydweithredol, defnyddir gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy. Mae system Rheoli Cymeradwyaeth Rhaglenni ar-lein yn dal gwybodaeth ddiffiniol am raglenni. Mae'r Gwasanaethau Ansawdd Academiaidd yn craffu ar gynigion i ddatblygu rhaglenni newydd, er mai gan y Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni y mae'r awdurdod i wneud penderfyniadau terfynol am ansawdd a safonau'r rhaglenni. Adolygir portffolio academiaidd pob coleg a phob ysgol, o leiaf bob blwyddyn, drwy'r broses Adolygiad Portffolio Blynyddol i sicrhau eu bod yn parhau'n ddichonol. Nododd y tîm adolygu ddyfnder yr arbenigedd mewnol ac allanol sy'n weithredol yng ngwaith y Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni (gwelwch adran 4.3). Cadarnhaodd y cyfarfodydd gyda'r staff eu bod yn deall y trefniadau hyn a bod y rhain yn gweithio'n effeithiol. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y defnydd rhagweithiol a wneir gan y Brifysgol o brosesau a gweithdrefnau datblygedig i sicrhau rheolaeth strategol a datblygiad gweithrediadol effeithiol o'i phortffolio academiaidd, ynghyd ag adolygiad effeithiol ohono, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol i'w raglenni.

109 Wedi i raglen gael ei chymeradwyo, bydd yn atebol i drefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer rheoli ac adolygu rhaglenni. I sicrhau gwell integreiddio rhwng y prosesau adolygu blynyddol a chyfnodol, a dull mwy cyfannol sydd wedi ei hysbysu gan ddata, nododd y tîm fod y Brifysgol wedi gweithredu dull diwygiedig o adolygu ansawdd (gwelwch adran 4.5). Mae'r dull hwn yn cynnwys: adolygiad blynyddol o'i rhaglenni; adolygiad modiwlau a threfniadau addasu, tynnu allan neu atal dros dro; a chylch adolygu pum mlynedd ar gyfer adolygu pob maes astudio a phob rhaglen. Cymeradwyr y cynigion i addasu modiwlau gan y Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni. Mae'r broses o adolygu rhaglenni'n flynyddol yn gofyn bod timau'r rhaglenni'n ystyried gwerthusiadau myfyrwyr, perfformiad myfyrwyr, ac adroddiadau arholwyr allanol ac yn gwneud gwerthusiad yn erbyn metrigau safonol. Cafodd y system AAAP ei gwella er mwyn gwneud data'n fwy hygyrch (gwelwch adrannau 4.5 a 4.8). Gweithredir goruchwyliaeth leol gan Fyrddau Astudiaethau a chynhwysir cynlluniau gweithredu o'r broses o adolygu rhaglenni'n flynyddol yn y Cynlluniau Gweithredu i Wella Profiad Myfyrwyr ar lefelau'r colegau a'r meysydd astudio, a bydd y rhain yn cael eu monitro gan Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r colegau. Mae'r Gwasanaethau Ansawdd Academiaidd yn adolygu pob adroddiad o'r broses adolygu hon ac yn codi unrhyw broblemau ar lefel y sefydliad cyfan yn y Pwyllgor DAA neu'r Bwrdd Dilyniant a Dyfarnu, fel y bo'n briodol. Mae rôl ragweithiol gan y pwyllgor newydd, y Pwyllgor Ansawdd Data Academiaidd, yn y gwaith o fonitro cynlluniau gweithredu a lunnir o ganlyniad i'r broses adolygu ansawdd (gwelwch adran 4.5).

110 Nododd y tîm adolygu fod yr adolygiadau o dan y broses o adolygu ansawdd bob pum mlynedd wedi eu haildrefnu yn sgil y pandemig ac y byddent yn digwydd ym misoedd cynnar 2021. Er bod cyflwyniad y newidiadau rheoliadol brys wedi newid y gweithdrefnau ar gyfer asesu ac addasu rhaglenni a'u hatal dros dro neu eu tynnu allan, cadwyd y ddisgyblaeth reoliadol a'r manwl gywirdeb priodol yn y trefniadau ar gyfer gosod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academiaidd (gwelwch adran 4.7).

### 4.3 Y defnydd a weir o bwytiau cyfeirio allanol mewn prosesau ansawdd

111 Drwy adolygu ei phrosesau'n rheolaidd a sganio'r amgylchedd rheoleiddiol allanol, mae'r Brifysgol yn sicrhau bod rhaglenni a dyfarniadau academiaidd yn cydymffurfio â phwyntiau cyfeirio academiaidd allanol, gofynion statudol, ac arferion rheoliadol cadarn. Yn tanategu rheoliadau academiaidd a chodau ymarfer mewnol mae trefniadau gweinyddol a phrosesau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd sy'n rhoi ystyriaeth i bwytiau cyfeirio allanol.

112 Sicrheir cydymffurfiad â gofynion academiaidd sylfaenol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru (FfAAC), a Rhan 1 yr ESG drwy waith cynhwysfawr o fapio rheoliadau, prosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn erbyn pwyntiau cyfeirio allanol. Mae dogfennau'r sefydliad yn cadarnhau bod y prosesau ar gyfer cymeradwyo, adolygu a sicrhau safonau rhaglenni academiaidd yn cyfeirio at ofynion y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch* (FHEQ), Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU, *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC) a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol. Cyflawnir y gofynion atebolrwydd i CCAUC o dan y FfAAC drwy adroddiadau sicrwydd ansawdd y Cyngor a'r Senedd sy'n cyfateb â Chanllawiau CCAUC i Sefydliadau a Reoleiddir, a'r Cynlluniau Mynediad a Ffioedd. Cyflawnir blaenoriaethau cenedlaethol drwy lunio a darparu prentisiaethau gradd. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y staff yn deall y trefniadau rheoleiddio, canllawiau a gweithdrefnau a'u bod yn eu defnyddio'n gyson ac yn eu diweddarau fel y bo'r gofyn.

113 Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd eang o arbenigedd allanol mewn prosesau ar gyfer cymeradwyo ac adolygu ei rhaglenni a'i dyfarniadau. Mae'r rhaglenni'n atebol i oruchwyliaeth yr arholwyr allanol, sydd wedi eu hyfforddi gan y Gwasanaethau Ansawdd Academiaidd mewn materion rheoliadol prifysgolion. Cyflwynwyd polisi trefniadau cilyddol ar gyfer penodi arholwyr allanol sy'n cael eu tynnu o brifysgolion cymaradwy. Creffir ar bob rhaglen newydd a phob rhaglen sydd wedi ei hadolygu a'i haddasu gan arbenigwr pwnc allanol, a dynnir hefyd o brifysgolion cymaradwy.

114 Mae nifer o'r rhaglenni'n atebol i ofynion achredu gan gyrff PSRB, a chysonir y prosesau gyda'r gofynion hyn. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth i ddangos sut mae meysydd academiaidd yn ymgysylltu â chyrrff PSRB ac yn ymateb i amodau ac argymhellion gan gyrff PSRB. Defnyddir cyfraniadau gan gyflogwyr i'r prosesau cynllunio, cymeradwyo ac adolygu. Roedd y cyflogwyr hynny y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n siarad yn gadarnhaol am eu cyfranogaeth. Cadarnhaodd y tîm adolygu fod y Brifysgol wedi parhau, drwy drefniadau o bell, i ddefnyddio arholwyr allanol, arbenigwyr pwnc, cyrrff PSRB a chyflogwyr ym mhrosesau'r Brifysgol ers cychwyniad y pandemig COVID-19 a chyflwyniad newidiadau rheoliadol a newidiadau eraill.

### 4.4 Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a phennu materion sy'n codi o'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw nad ydynt yn cael eu harchwilio fel arall

115 Canfu'r adolygiad a weithredwyd gan QAA yn 2014 fod y Brifysgol yn cyflawni holl ddisgwyliadau'r DU mewn perthynas â safonau ac ansawdd, a chanmolodd hi ar y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'w myfyrwyr. Gwnaeth yr adroddiad ddau argymhelliad a chadarnhaodd bod y Brifysgol wedi gweithredu ar ddau fater. Roedd yr argymhellion yn ymwneud, yn y drefn hon, â dulliau o safoni gwaith a aseswyd, a goruchwylio cyflawniad y myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni ymchwil ôl-raddedig. Ymdriniwyd â'r argymhellion drwy gynllun gweithredu dan oruchwyliaeth y Pwyllgor DAA a'r Senedd.

116 Mae'r broses safoni wedi ei thanategu bellach gan bolisi ar safoni. Y cydlynwyr modiwl sy'n pennu'r dull safoni sy'n cael ei fabwysiadu yn llawlyfrau'r modiwlau i fyfyrwyr (gwelwch adran 4.7). Nododd y tîm fod y Brifysgol wedi rhoi System Rheoli Ymchwil ôl-raddedig ar waith, sy'n cynnwys 'Dangosfwrdd' data am fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, system cofnodion sy'n hwyluso dadansoddiad strategol o fetrigau a demograffeg y myfyrwyr a goruchwyliaeth ar



ymgeisiaeth a pherfformiad y myfyriwr. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol wedi dod yn ei blaen yn dda yn ei gwaith o ymdrin â phob un o'r argymhellion.

117 Mae'r Brifysgol wedi gwneud gwelliannau eraill i'w dull o sicrhau a gwella ansawdd. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys adfywio'r seilwaith ansawdd academaidd (gwelwch adran 4.1); symleiddio proses integredig o adolygu ansawdd, gyda chefnogaeth codau ymarfer mewnol (gwelwch adran 4.2); gwelliannau yn y seilwaith i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n cynnwys sefydlu Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig a phenodi Deon Ymchwil Ôl-raddedig; ymgorffori rheoli ac adolygu portffolios yn rhan o'r broses o gynllunio busnes (gwelwch adrannau 4.2 a 4.5); a sefydlu'r Pwyllgor Ansawdd Data Academaidd (gwelwch adrannau 4.2, 4.5 a 4.8). Mae'r tîm adolygu o'r farn fod y newidiadau hyn, ac ymatebion y Brifysgol i argymhellion 2014, yn adlewyrchu diwylliant o wella a chyfoethogi.

#### **4.5 Y dull o ddefnyddio data i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso**

118 Mae'r Brifysgol yn disgrifio ei dull o werthuso a gwneud penderfyniadau fel dull sydd 'wedi ei hysbysu gan ddata'. Diben y dull hwn yw galluogi i golegau ac ysgolion ganfod y materion a fydd o bosib angen sylw ar lefel y brifysgol, gan felly hwyluso dulliau cadarn o wneud penderfyniadau er mwyn gwella profiad y myfyrwyr.

119 Nododd y tîm adolygu amrywiaeth o esiamplau o ddata'n cael ei ddefnyddio'n systematig at ddibenion gwerthuso a sicrhau gwelliant. Gwneir defnydd eang o ddata meincnodi'r sector, megis data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch am gynnydd, cadwraeth a dyfarniadau; dadansoddiad o'r safle ar y tabl cynghrair er mwyn meincnodi yn erbyn grwpiau cymaradwy; a monitro perfformiad mewn meysydd megis cyflogadwyedd graddedigion. Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno proses ar gyfer rheoli ei phortffolio ar sail dadansoddiad o'r farchnad, a defnyddir hon i gynllunio meysydd astudio newydd (gwelwch adran 4.2). Mae proses y Brifysgol ar gyfer adolygu ei phortffolio, a arweinir yn flynyddol gan y Bwrdd Rheoli Rhaglenni, yn ymgorffori data gan UCAS a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch i bennu darpariaeth academaidd a allai fod yn atebol i gael ei thynnu allan neu ei hatal dros dro. Nododd y tîm adolygu fod y broses o adolygu rhaglenni'n flynyddol yn galluogi i dimau'r rhaglenni ddefnyddio data o ffynonellau mewnol ac allanol at ddibenion adolygu a gwella. Clywodd y tîm hefyd fod hunanwerthusiad ar gyfer y broses o adolygu ansawdd bob pum mlynedd yn canolbwyntio ar ddata ac yn defnyddio ystod o ffynonellau mewnol ac allanol.

120 Cadarnhaodd y tîm adolygu fod y trefniadau hyn wedi eu dogfennu'n dda, a bod gan y staff ddealltwriaeth fras o'r amcanion. Fodd bynnag, yn ei Dadansoddiad Hunanwerthuso, cydnabu'r Brifysgol bod gallu'r staff allweddol ar lefel y rhaglenni i wneud defnydd llawn o'r data'n amrywiol, a bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y newidiadau a gyflwynwyd yn y prosesau adolygu a gwneud penderfyniadau'n gallu cael eu gweithredu'n llawn. Roedd hi'n braf gan y tîm adolygu glywed bod y Brifysgol yn cymryd camau i ymdrin â'r materion hyn.

121 Cyflwynwyd y system gwybodaeth busnes 'Power BI' fel y prif blatfform i hwyluso gwell mynediad i ddata mewnol ac allanol, gan gynnwys drwy adroddiadau'r system Asesu Ansawdd Arholiadau Prifysgol (AAP) a Dangosfwrdd Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig. Mae nifer o gamau'r prosiect wedi eu cwblhau. Clywodd y tîm adolygu fod adroddiadau'r system AAP wedi eu gwella erbyn hyn ar gyfer eu defnyddio yn y broses o adolygu rhaglenni a modiwlau. Yn cyflenwi'r data am ganlyniadau'r modiwlau mae data gwerthusol am y myfyrwyr a gesglir drwy'r system 'EvaSys'. Hefyd, mae'r Brifysgol wedi sefydlu'r Pwyllgor Ansawdd Data Academaidd sydd â'r dasg o adolygu'r materion hyn a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor DAA. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys symleiddio hygyrchedd y data am berfformiad academaidd, sicrhau gwell trosolwg o'r tirlun data academaidd, a phennu'r pyrrth a'r prosesau sy'n angenrheidiol i gyflawni hyn. Trwy fonitro Cynlluniau Gweithredu i Wella Profiad Myfyrwyr y colegau, sy'n adrodd am y data adborth gan y myfyrwyr, mae'r Pwyllgor Ansawdd Data Academaidd yn cyfrannu at system fwy

effeithiol o wneud penderfyniadau deallus ar sut i wella profiad y myfyrwyr (gwelwch adran 4.2). Roedd y ddogfennaeth a'r cyfarfodydd gyda'r staff yn cadarnhau bod y gwaith o weithredu'r mentrau hyn yn dod yn ei flaen yn dda. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i ymdrin â'r diffygion y mae'r Brifysgol wedi eu canfod yn argaeledd y data, a'r ffordd y defnyddir data, at ddibenion gwneud penderfyniadau, gwerthuso ac adolygu.

#### **4.6 Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r dulliau sicrhau ansawdd i wella'r dysgu a'r addysgu**

122 Mae esboniad o ymrwymiad y Brifysgol i wella ansawdd i'w gael ei Chynllun Gwella Arferion Dysgu ac Addysgu (2019-20). Un o themâu gwelliant cyfredol y Brifysgol yw'r broses o reoli'r portffolio, maes a ganmolwyd gan y tîm adolygu (gwelwch adran 4.2). Mae'r broses hon yn sicrhau bod arferion gorau mewn asesu, sgiliau entrepreneuriaidd, ac arferion addysgu arloesol, wedi eu hymgorffori mewn rhaglenni cymeradwy. Defnyddir y broses o adolygu rhaglenni'n flynyddol i ganfod a rhannu arferion da mewn dysgu ac addysgu. Mae'r Pwyllgor DAA a Chyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu'r colegau'n cyfrannu at ledaenu gwybodaeth i Fyrddau Astudiaethau a Phwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r colegau. Hefyd, mae'r Gwasanaethau Ansawdd Academaidd a'r Bwrdd Dilyniant a Dyfarnu, yn y drefn honno, yn llunio adroddiadau trosolwg sy'n canfod materion y mae angen eu gwella a meysydd o arfer da sy'n codi o brosesau adolygu ac adroddiadau arholwyr allanol. Yn cyflenwi'r trefniadau hyn ar gyfer sicrhau gwelliant mae gweithgareddau academaidd a chymunedau ymarfer y Brifysgol. Mae prosesau'r Brifysgol ar gyfer adolygu ansawdd wedi eu cryfhau drwy welliannau a wnaed i'r defnydd a wneir o ddata at ddibenion gwerthuso (gwelwch adran 4.5). Roedd dogfennau'r sefydliad a'r hyn a ddywedwyd yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd gan y tîm adolygu'n cadarnhau bod y staff yn ymgysylltu'n llawn â'r trefniadau hyn (gwelwch adrannau 4.2 a 4.4).

123 Mae nifer o ddangosyddion yn tystio i effeithiolrwydd dull y Brifysgol o wella ansawdd. Er bod nifer y myfyrwyr sy'n gwneud gradd gyntaf wedi cynyddu o oddeutu 50% dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae'r sgorau am foddhad cyffredinol y myfyrwyr yn yr ACF wedi parhau ar lefel gyson o uchel tra bo'r cyfraddau cadwraeth a chynnydd yn cymharu'n ffafriol â meincnod yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar gyfer y Brifysgol. Mae'r gyfran o raddau dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch a ddyfemir yn gymaradwy â'r sector. Cydnabuwyd y cyflawniadau mewn addysgu ac ymchwil gan y Wobr Aur a ddyfarnwyd i'r Brifysgol am ragoriaeth addysgu yn 2018, a'r canlyniadau yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014.

124 Mae effeithiolrwydd dull y Brifysgol o wella ansawdd y dysgu a'r addysgu wedi ei gadarnhau gan y defnydd a wnaed o brosesau sicrhau a gwella ansawdd i sicrhau parhad y dysgu a'r addysgu ac ym mhrofiad y myfyrwyr mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19 (gwelwch y ganmoliaeth yn adran 3.2).

#### **4.7 Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd**

125 Mae seilwaith ansawdd academaidd a rheoliadau academaidd y Brifysgol yn darparu fframwaith ar gyfer gosod a chynnal safonau dyfarniadau academaidd (gwelwch adrannau 4.1, 4.2 a 4.3).

126 Goruchwylir y dimensiwn o amgylchedd rheoleiddiol y Brifysgol lle mae'r ffocws ar y myfyriwr drwy'r Bwrdd Rheoliadau ac Achosion Academaidd. Darperir adroddiadau blynyddol am apeliadau, cwynion a materion disgyblu i'r Bwrdd Rheoliadau ac Achosion Academaidd a'r Bwrdd Dilyniant a Dyfarnu, ac i Undeb y Myfyrwyr a Chyngor y Brifysgol. Tanategir yr amgylchedd rheoleiddiol ymhellach gan y system ar gyfer rheoli dilysrwydd academaidd a chamymddwyn academaidd. Cadarnhaodd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw bod gwybodaeth ar gael am faterion rheoliadol.

127 Mae trefniadau'r Brifysgol ar gyfer cynnal safonau academiaidd yn cynnwys y defnydd trwyadl a wneir o arholwyr allanol yn y prosesau i asesu myfyrwyr (gwelwch adran 4.3). Mae eu hadroddiadau, ynghyd â chrynoadau blynyddol a chofnodion pwyllgorau, yn cadarnhau bod y rhaglenni'n cyfateb â'r meincnodau pwnc perthnasol, ac yn bodloni gofynion y FHEQ a'r cyrff PSRB, a bod y trefniadau gweinyddol ar gyfer cynnydd a phennu graddau'n cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae arholwyr allanol yn adolygu'r broses o safoni gwaith marcio er mwyn sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu yn unol â gofynion y Brifysgol mewn perthynas â safonau academiaidd (gwelwch adran 4.4).

128 Wrth adolygu'r trefniadau hyn, ystyriodd y tîm adolygu'r camau hynny a gymerwyd gan y Brifysgol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Cyflwynwyd agwedd rhwyd ddiogelwch ar draws y coleg, a luniwyd i leihau'r effeithiau ar ddatblygiad academiaidd a chanlyniadau'r myfyrwyr, ac yn unol â hynny cyflwynwyd addasiadau brys i bolisiâu a rheoliadau dysgu ac addysgu, gydag ystyriaeth hefyd i amgylchiadau esgusodol. Roedd papurau gwaith a dogfennau'r sefydliad yn dangos bod y Brifysgol wedi gweithredu mewn ffordd amserol a chadarn ac yn cadarnhau bod cynllun a datblygiad y Polisi Rhwyd Ddiogelwch wedi ei hysbysu gan egwyddorion cadarn ynghylch ansawdd academiaidd ac ymgysylltiad effeithiol gyda threfnau a phrosesau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd. Nododd y tîm fod cyfnod asesiad yr haf wedi ei aildrefnu a bod y myfyrwyr wedi croesawu'r symudiad i drefniadau gwahanol ar gyfer arholi ac asesu o bell. Defnyddiwyd yr arholwyr allanol drwy drefniadau gweithio o bell, ac roedd y defnydd a wnaed o'r broses ar gyfer addasu modiwlau a'r broses ar-lein o safoni gwaith marcio wedi sicrhau bod y system yn gadarn a bod y rheolaeth ar y modiwlau yn dda. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y camau gweithredu a gymerwyd gan y Brifysgol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 i sicrhau bod y prosesau sicrhau ansawdd a materion rheoliadol yn parhau'n gadarn. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno'r Polisi Rhwyd Ddiogelwch a gweithrediad y rheoliadau a pholisiâu brys ym meysydd dysgu, addysgu ac asesu.

129 Clywodd y tîm adolygu fod y Brifysgol wedi canfod pryderon ynghylch asesiad, a fynegwyd gan y myfyrwyr mewn data o arolygon mewnol ac allanol. Barn y Brifysgol oedd bod y perfformiad cyffredinol mewn arolygon yn gadarnhaol, ond bod lle i wella'r canlyniadau mewn arferion asesu ac adborth. Nodwyd bod hyn yn thema gwelliant sefydliadol gan y Pwyllgor DAA. Yn ogystal ag ymgynghori ar ddiweddariad i'r polisi cyfredol, gwnaethpwyd penodiad i safle'r Deon Adborth ac Asesu i lywio mentrau i'r Brifysgol gyfan. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau'r** camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i wella ei pholisiâu a'i harferion ym meysydd adborth ac asesu.

#### **4.8 Effeithiolrwydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun, sy'n cynnwys defnyddio data'n effeithiol i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau**

130 Nododd y tîm adolygu fod y Brifysgol wedi gwella hygyrchedd y data at ddibenion gwerthuso a gwneud penderfyniadau. Gwneir defnydd eang o wybodaeth am y farchnad i hysbysu rheolaeth y portffolio academiaidd. Mae cyflwyniad y platfform 'Power BI' yn hwyluso gwell mynediad at ddata mewnol ac allanol ar gyfer y cyfarwyddwyr rhaglenni. Defnyddir data o arolygon o brofiad myfyrwyr mewn prosesau adolygu ansawdd. Defnyddir data am ganlyniadau graddedig, sy'n hysbysu strategaeth gyflogadwyedd y Brifysgol, i wneud hunanwerthusiad mewn adolygiadau o dan y broses o adolygu ansawdd bob pum mlynedd. Hefyd, mae'r system AAAP yn darparu gwybodaeth am ganlyniadau a pherfformiad y modiwlau, tra bo'r system 'EvaSys' yn darparu data gwerthusol am y myfyrwyr i dimau'r rhaglenni, gan gryfhau'r gwerthuso a'r adolygu o fewn y broses adolygu rhaglenni'n flynyddol. Ar lefel ymchwil ôl-raddedig, mae'r 'Dangosfwrdd' Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig wedi gwella'r system o gasglu data am fetrigau'r myfyrwyr i staff, tra bo'r myfyrwyr yn cyrchu gwybodaeth am eu datblygiad drwy'r system rheoli 'e:Vision' (gwelwch adran 4.4). Mae'r Bwrdd Dilyniant a Dyfarnu'n ystyried canlyniadau cyrhaeddiad y myfyrwyr ar lefelau'r dyfarniadau a'r rhaglenni, tra bo'r platfform 'Power BI' yn pennu'r modiwlau 'allanol' i'w hystyried mewn prosesau adolygu.

Mae'r tîm adolygu'n cymeradwyo'r datblygiadau hyn, ac yn croesawu sefydliad y Pwyllgor Ansawdd Data Academaidd, sy'n gyfrifol am oruchwylio ac adolygu hygyrchedd ac ansawdd data am berfformiad, ac am wneud argymhellion ar welliant. Mae'r pwyllgor hwn yn goruchwylio gweithrediad y broses o adolygu rhaglenni'n flynyddol ar draws y Brifysgol a chyflawniad y camau gweithredu a bennir yn y Cynlluniau Gweithredu i Wella Profiad Myfyrwyr y colegau a'r ysgolion, sy'n cael eu monitro gan Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r colegau. Cynorthwyr y gwaith o reoli materion yn ymwneud ag ansawdd gan aelodaeth eang y Pwyllgor Ansawdd Data Academaidd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr y myfyrwyr (gwelwch y cadarnhad yn adran 4.5).

## 5 Darpariaeth gydweithredol

### 5.1 Nodweddion allweddol dull strategol y darparwr (yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell a ddarperir gydag eraill, a dysgu seiliedig ar waith)

131 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod ei phortffolio o raglenni cydweithredol yn weddol fach, ond mae'n barnu ei fod yn sicrhau manteision sylweddol i'r Brifysgol, ei myfyrwyr, â'r ardal o'i chwmpas, yn unol â'i Chynllun Strategol 2020, ei Strategaeth Ymchwil Ac Arloesi 2017-20, a fersiwn drafft ei Strategaeth Ryngwladoli 2020-25 sydd wrthi'n cael ei datblygu. Mae'r Brifysgol yn cynnig cyfleoedd sydd wedi eu sefydlu'n dda i astudio mewn blynyddoedd rhyngosodol ac i astudio dramor - rhaglenni cyfnewid yn bennaf lle trosglwyddir credydau yn hytrach nag ennill dyfarniadau llawn, yn unol â'r Strategaeth Symudedd Myfyrwyr, er mwyn cynnig cyfle symudedd i bob myfyriwr. Mae gan y Brifysgol nifer o bartneriaethau gyda darparwyr yn y DU ar ffurf trefniadau dilysu neu etholfreinio, ac mae'n cynnig graddau sylfaen a phrentisiaethau gradd a ddatblygwyd mewn partneriaeth â byd diwydiant a'r sector addysg bellach. Mae nifer o'r partneriaethau hyn wedi eu seilio yn y coleg ac yn adeiladu ar gysylltiadau gydag aelodau unigol o'r staff mewn perthynas â'r cwricwlwm, byd diwydiant neu synergeddau ymchwil. Mae tiwtoriaid cyswllt wedi eu penodi ar gyfer rhaglenni cydweithredol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Brifysgol wedi dechrau datblygu partneriaethau strategol, megis y rheiny gyda Université Grenoble Alpes a Texas A&M University a'r cydweithrediad sydd wrthi'n datblygu gyda Phrifysgol Wuhan.

132 Dyma brif nodweddion strategaeth gydweithredol y Brifysgol: ymdrin â diddordebau strategol i gefnogi Llywodraeth Cymru i ysgogi twf economaidd a meithrin ffyniant Cymru - gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol, partneriaid addysg bellach ac ysgolion yn y rhanbarth, ac adnoddau diwyllianol drwy'r byd i gyd; gwella'r cydweithrediad synergaidd hirsefydlog â byd diwydiant, busnes, masnach a'r trydydd sector; hyrwyddo natur ryngwladol y Brifysgol; datblygu partneriaethau cynaliadwy sydd o fudd i'r ddwy ochr sy'n cynnwys nifer fechan o bartneriaid strategol rhyngwladol allweddol (Université Grenoble Alpes, University of Central Oklahoma, Accademia per lo Sviluppo dell'Osteopatia e della Medicina Integrativa (ASOMI)) ac sy'n cefnogi'r myfyrwyr i gyflawni eu dyheadau gyrfaol drwy gael profiadau dysgu seiliedig ar waith yn cynnwys rhai tramor, cyfleoedd i ddatblygu ymarfer personol a phroffesiynol, blynyddoedd mewn diwydiant, ac astudio dramor. Yn ogystal, gweithredir gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy a sicrhau ansawdd mewn partneriaeth â chyflogwyr i reoleiddio ansawdd a safonau'r dysgu a'r addysgu. Disgrifiodd y cyflogwyr gysylltiad agos â'r Brifysgol a pharhad y lleoliadau gwaith a phrofiadau dysgu yn y gweithle yn ystod y pandemig COVID-19 (gwelwch y ganmoliaeth yn adran 3.2).

133 Yn rhan o seilwaith y Brifysgol i reoli a chefnogi'r rhaglenni hyn mae: Swyddfa Datblygiad Rhyngwladol - sy'n ymwneud yn agos iawn â recriwtio ac hefyd roi cefnogaeth o ddydd i ddydd i fyfyrwyr rhyngwladol, yn arbennig yn ystod y pandemig; y Gyfarwyddiaeth Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol; a'r Adran Partneriaethau Academaidd gysylltiedig sy'n rheoli trefniadau cydweithredol lle dyfernir graddau a chredydau.

134 Mae'r Brifysgol wedi ei hymrwymo i reoli ei gweithgareddau cydweithredol yn effeithiol, a sicrhau bod ei phrosesau sicrhau ansawdd, profiad ei myfyrwyr a safonau ei dyfarniadau'n gadarn. Mae'r dull hwn yn gymesur, yn ystyried y risgiau ac wedi ei llywio gan egwyddorion craidd sydd wedi eu nodi yn y Cod Ymarfer ar gyfer Partneriaethau Cydweithredol.

## 5.2 Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol ac unrhyw gynlluniau i'w newid

135 Mae gan y Brifysgol nifer o drefniadau dilysu neu etholfreinio gyda darparwyr yn y DU, a graddau sylfaen a phrentisiaethau gradd a ddatblygwyd mewn partneriaeth â byd diwydiant a'r sector addysg bellach. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaeth gyda Choleg Cambria ac Airbus a ddatblygwyd ar sail yr arbenigedd sydd gan y Brifysgol a Choleg Cambria fel ei gilydd mewn Peirianeg Awyrenneg, ac anghenion y diwydiant awyrenneg gweithgynhyrchu yng Ngogledd Cymru. Mae prentisiaethau gradd o'r fath yn newydd i'r Brifysgol ac i Gymru. Mae'r Brifysgol yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu seiliedig ar waith a lleoliadau gwaith i'w myfyrwyr, yn rhan o raglenni gradd, neu fel gweithgareddau allgwricwlaidd. Gellir ennill credyd gyda chyfran o'r rhain. Gan y brifysgol gyfan y mae'r cyfrifoldeb am ddarparu'r amrywiaeth eang hon o gyfleoedd ac mae'r gwaith yn gofyn cydweithio rhwng y colegau, y gwasanaethau proffesiynol a'r academaïau. Er enghraifft, mae'r rhaglen gradd mewn Ymarfer Parafeddygol Uwch yn galluogi i barafeddygon sydd wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal gael cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith a chyfleoedd datblygu ymarfer ac ennill credydau academaidd am eu dysgu. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydweithio â darparwyr addysg uwch i gynnig darpariaeth Gaeleg yr Alban a Chymraeg.

136 Ar gyfer ei ddarpariaeth ryngwladol, mae'r Brifysgol wrthi'n datblygu dull i'r sefydliad cyfan, sydd wedi ei nodweddu gan aliniad strategol a'i gefnogi gan dîm 'Go Global' sy'n darparu adroddiad blynyddol. Dangosodd yr adroddiad hwn bod mwy na 700 o leoliadau dysgu ledled y byd yn 2018-19 - sef cynnydd o fwy na 30% o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Yn ogystal, mae gan y Brifysgol bartneriaethau strategol gydag University of Central Oklahoma, Texas A&M University, ac Université Grenoble Alpes, ac mae wrthi'n datblygu partneriaethau newydd gydag ASOMI yn yr Eidal i ddarparu rhaglen BSc mewn Osteopathi, a gyda Phrifysgol Wuhan. Mae'r Brifysgol yn cynnig goruchwyliaeth ar y cyd ar rai graddau ymchwil neu raglenni ymchwil doethurol mewn sefydliadau academaidd neu ddiwydiannol eraill, gan gynnwys University of Central Oklahoma. Mae'r nifer o bartneriaid cydweithredol wedi cynyddu'n raddol o 24 yn 2015-16 i 54 yn 2018-19. Bwriedir mesur yr ehangiad yn y dyfodol ac, ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio ar ddarpariaeth addysg draws-wladol. Bydd y strategaeth ehangu'n cyfateb â'r egwyddorion sydd wedi eu nodi yn adran 5.1 ac yn fersiwn terfynol Strategaeth Ryngwladoli 2020-25, sydd wrthi'n cael ei datblygu. Mae hyn yn cynnwys Rhaglen Recriwtio Ryngwladol 'Step Change', sydd wedi peri cynnydd cyson yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol dros y pum mlynedd diwethaf.

## 5.3 Effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

137 Llofnodwyd cytundebau cydweithio ar gyfer pob partneriaeth yn y DU a thramor. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth gynhwysfawr o brosesau diwydrwydd dyladwy ar gyfer y rhaglenni hyn. Ar ôl cwblhau'r broses gymeradwyo, mae rhaglenni cydweithredol yn dod yn rhan o brosesau arferol y Brifysgol ar gyfer sicrhau ansawdd (adolygir y rhain yn effeithiol o dan broses y Brifysgol o adolygu rhaglenni'n flynyddol). Mae rheolwyr pob coleg perthnasol yn gyfrifol am oruchwylio eu rhaglenni cydweithredol eu hunain, a hynny lle bo'r gofyn gyda chefnogaeth yr Adran Partneriaethau Academaidd. Penodir Tiwtor Cyswllt i bwrpasau cysylltiad academaidd. Mae'r Bwrdd Rhaglenni Cydweithredol a'r Pwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni'n gyfrifol am oruchwylio adolygiadau cyfnodol a blynyddol (os yw hynny'n berthnasol) o bartneriaethau cydweithredol; mae pob coleg perthnasol yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediadau'r Cyd-fyrddau Astudiaethau a'r prosesau ar gyfer adolygu ac asesu ei raglenni ei hun yn flynyddol.

138 Roedd y myfyrwyr rhyngwladol yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd am yr opsiwn i ddechreio adref, ac unrhyw newidiadau i asesiadau yn ystod y pandemig COVID-19. Roedd hyn yn golygu bod profiadau symudedd nifer o'r myfyrwyr wedi eu heffeithio yn ystod y cyfnod

hwn oherwydd pryderon ynglŷn â diogelwch, ond nid oes unrhyw newid i'r strategaeth symudedd yn gyffredinol. Clywodd y tîm adolygu gan un o'r myfyrwyr rhyngwladol am y croeso a'r cymorth ymarferol a roddwyd iddynt wrth iddynt gyrraedd y DU a throsglwyddo i'r Brifysgol, a barodd iddyn nhw deimlo'n gyflym iawn eu bod yn rhan o gymuned y Brifysgol. Dywedodd myfyrwyr Coleg Cambria eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gyda'u gwaith, bod y Brifysgol wedi buddsoddi mewn meddalwedd arbenigol i'w galluogi i weithio o gartref, ac nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau wrth gasglu tystiolaeth o asesiadau ar gyfer eu portffolios. Mae'n ymddangos bod y trefniadau ar gyfer cefnogi myfyrwyr ar raglenni cydweithredol yn effeithiol, gyda myfyrwyr yn nodi bod y trefniadau gweithio ar-lein wedi eu rheoli'n dda, ac ystyrir bod gan y Brifysgol dealltwriaeth dda o fyfyrwyr sy'n gweithio yn ogystal ag astudio. Disgrifiodd y myfyrwyr y gwasanaethau proffesiynol fel "curiad calon y brifysgol hon" gan ddweud eu bod yn eithriadol ymatebol i ymholiadau (gwelwch y canmoliaethau yn adrannau 2.1 ac 4.7).

## **QAA2570 - R10478 - Chwefror 2021**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2021  
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL  
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786  
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)